Home Office

Y Swyddfa Gartref

Adolygiad o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig: Canllawiau Statudol:

Medi 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint sy'n eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn vawgimplementation@homeoffice.gov.uk.

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad i Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig

1 Diben DARDR 9

2 Meini prawf a diffiniadau ar gyfer DARDR 10

2a. Achosion heb eu dyfarnu fel lladdiad 13

Adran 2: Cynnal Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig

3 Hysbysu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol am farwolaeth 17

4 Proses yr Adolygiad Cwmpasu 17

4a. Cynnal y Broses Adolygiad Cwmpasu 18

4b. Penderfyniadau i beidio â chynnal DARDR 18

5 Cydlynu Adolygiad Marwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig ar lefel leol 22

5a. Cynnull Panel DARDR 22

5b. Penodi Cadeirydd ar gyfer y DARDR 23

5c. Adolygiadau trawsffiniol 25

5d. Adolygiadau a gynhaliwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon 25

6 Cynnal yr Adolygiad o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig 27

6a. Cwmpas y DARDR a'r Cylch Gorchwyl 27

6b. Tystiolaeth ac ymchwil ychwanegol 28

7 Llunio'r Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig 30

7a. Dull sy'n ystyriol o drawma 30

7b. Dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr 31

7c. Cyfranogiad teulu, ffrindiau a chymunedau 32

7d. Ymgysylltu â chyflawnwyr 34

7e. Achosion heb achosion troseddol 36

7f. Dadansoddiad 36

8 Adolygiadau Cyfochrog 37

8a. Adolygiadau Lladdiad Iechyd Meddwl (MHHRs) 37

8b. Adolygiadau Diogelu Oedolion 38

8c. Adolygiadau o Arferion Diogelu Plant 38

8d. Adolygiadau Marwolaeth Plentyn 39

8e. Adolygiadau o Droseddau Pellach Difrifol 39
8f. Adolygiadau Achosion Difrifol MAPPA 40
9 Ymchwiliadau troseddol 40
9a. Penderfyniad i oedi'r DARDR 40
9b. Cynnal DARDR ochr yn ochr ag achosion troseddol 41
9c. Datgelu 41
10 Cwestau Crwner 42
11 Marwolaethau dramor 42
12 Anonymeiddio a lleihau data 43
13 Diogelu data 44
14 Bwrdd Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref 47
14a. Penderfyniadau i beidio â chynnal DARDR 47
15 Cyhoeddi 48
15a. Penderfyniad i beidio â chyhoeddi DARDR 48
15b. Diwygio DARDR a gyhoeddwyd 49
16 Cynnal DARDR yng Nghymru: Yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) 49
17 Cwynion 51
Adran 3: Gwneud i Ddysgu Gyfrif – Atal Marwolaethau yn y Dyfodol
18 Goruchwylio a gweithredu dysgu ar lefel genedlaethol a lleol 52
19 Rolau asiantaethau wrth nodi a gweithredu dysgu 53
19a. Cadeiryddion DARDR 53
19b. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol 53
19c. Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 54
19d. Y Comisiynydd Cam-drin Domestig 55
19e. Y Swyddfa Gartref 55
19f. Yr Awdurdod Diogelu Plant 56
Pecyn Cymorth DARDR 57
Atodiad A: Templed DARDR 57
Atodiad B: Templed a Chanllawiau ar gyfer Cynllun Gweithredu 62
Atodiad C: Templed Adolygiad Cwmpasu 64
Atodiad D: Templed Adroddiad Rheoli Annibynnol Template 65
Atodiad E: Templed Adborth DARDR y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd 66
Atodiad F: Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 69

Atodiad G: Pecyn cymorth ar gyfer cynnwys teulu, ffrindiau, cydweithwyr, cymdogion a'r gymuned ehangach....73
Atodiad H: Ffurflen Casglu Data DARDR....74
Atodiad I: Cylch Gorchwyl Bwrdd Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer DARDR....85
Atodiad J: Rhestr Wirio Cyflwyno DARDR....90
Atodiad K: Rhestr o Gysylltiadau Allweddol....96
Atodiad L: Geirfa o Fyrfoddau ac Acronymau....98

Cyflwyniad

"Illuminating the past to make the future safer"
Frank Mullane MBE, Eiriolaeth yn dilyn cam-drin domestig angheuol

Diben a statws cyfreithiol

O dan adran 8A o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004[1] (fel y'i diwygiwyd gan adran 19 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024), mae Adolygiad Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig (DARDR), a elwid gynt yn Adolygiad Llofruddiaeth Domestig (DHR), yn adolygiad o'r amgylchiadau lle mae marwolaeth person 16 oed neu hŷn[2] wedi, neu'n ymddangos fel pe bai wedi deillio o gam-drin domestig [3], gydag olwg ar nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth. Mae DARDR yn rhoi cyfle i asiantaethau cenedlaethol a lleol, cymunedau lleol, a chymdeithas yn gyffredinol ystyried pob dioddefwr yn unigol a thrin pob marwolaeth fel un y gellir ei hatal.

Diwygiwyd y ddeddfwriaeth sy'n sail i DARDRs gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024[4], fel bod DARDR yn cael ei gomisiynu pan fo marwolaeth wedi deillio, neu'n ymddangos ei bod wedi deillio, o gam-drin domestig, fel y'i diffinnir gan adran 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021[5] ("Deddf 2021"). Cyflwynodd Deddf Cam-drin Domestig 2021 ddiffiniad statudol o gam-drin domestig. Bydd cymhwyso'r diffiniad hwn yn sicrhau bod Adolygiadau Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'r gwahanol ffurfiau y gall cam-drin domestig eu cymryd, ac yn casglu gwersi i atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Hefyd, ailenwyd yr adolygiadau hyn gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, er mwyn adlewyrchu'n well yr ystod o farwolaethau sy'n dod o fewn cwmpas adolygiad, gan gynnwys lladdiadau, hunanladdiadau a marwolaethau anesboniadwy a allai fod wedi deillio o gam-drin domestig.

Mae dros ddeng mlynedd wedi mynd heibio ers i'r canllawiau statudol gael eu diweddaru ddiwethaf yn 2016, a dros bymtheg mlynedd ers i'r canllawiau cyntaf gael eu cyhoeddi a'r adolygiadau gael eu rhoi ar waith yn 2011. Dros yr amser hwn, rydym wedi dysgu llawer am gryfderau Adolygiadau Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig, yn ogystal â lle gellir eu gwella i wneud y mwyaf o'u potensial ar gyfer deall yn well ac atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Rydym wedi ymrwymo i barhau ag egwyddorion sylfaenol yr Adolygiadau Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig, fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod lle i wella yn y ffordd y cânt eu cynnal, a'r gwersi a gymhwysir.

Ers adolygu'r canllawiau ddiwethaf, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i haneru trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) mewn degawd, sy'n cynnwys rhaglen waith i atal a deall marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn well. Mae'r Swyddfa Gartref

[1] Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004
[2] Mewn achosion lle mae person o dan 16 oed yn marw yn dilyn cam-drin domestig, gellir cynnal Adolygiad o Farwolaeth Plentyn neu Adolygiad o Arferion Diogelu Plant er mwyn nodi gwersi ac atal marwolaethau plant yn y dyfodol.
[3] "Cam-drin domestig" o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021. Dim ond i Loegr a Chymru y mae'r ddeddfwriaeth hon yn gymwys.
[4] Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024
[5] Adran 1 Deddf Cam-drin Domestig 2021

hefyd wedi lansio Llyfrgell Adolygu Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig sy'n dal yr holl DARDRs cyhoeddedig, er mwyn gwella tryloywder a chyfrannu at ddysgu. Mae gan bob partner bellach fynediad hawdd at ddeunydd i ddysgu o farwolaethau blaenorol sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig ac yn y pen draw atal marwolaethau yn y dyfodol.

Strwythur

Mae'r canllawiau wedi'u rhannu'n dair adran: Adran 1: Cyflwyniad; Adran 2: Cynnal Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig; ac Adran 3: Gwneud i'r Dysgu Gyfrif - Atal Marwolaethau yn y Dyfodol. Mae pob adran yn darparu canllawiau manwl ar sut y dylid cynnal DARDR, gan amlinellu'r gofynion angenrheidiol. Yn ogystal, mae 'DARDR Pecyn Cymorth' wedi'i gynnwys ar ddiwedd y ddogfen i ddarparu templedi ac enghreifftiau, ac i dynnu sylw at amrywiaeth o wasanaethau cymorth.

Mae ychwanegiadau newydd at y canllawiau diwygiedig hyn yn cynnwys cyflwyno proses Adolygiad Cwmpasu i wella'r ffordd y caiff gwersi cynnar eu cofnodi a gweithredu arnynt. Mae'r canllawiau hefyd yn cadarnhau'r broses newydd o ddogfennu'r rhesymau dros gynnal DARDR neu beidio â'i gynnal. Mae gwybodaeth wedi'i hychwanegu ynghylch cynnal DARDRs mewn achosion lle mae dioddefwr cam-drin domestig wedi marw drwy hunanladdiad[6], esgeulustod neu mewn amgylchiadau na ellir eu hegluro, ond lle mae tystiolaeth eu bod wedi profi cam-drin domestig. Yn ogystal, mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r camau cyn cyhoeddi'r DARDR, gan gynnwys trefniadau ar gyfer lledaenu gwersi a sicrhau ansawdd. Nod y canllawiau yw nodi sut y dylid cynnal y broses DARDR er mwyn gwella dealltwriaeth ac atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, ac i gryfhau ymhellach enw da DARDRs fel adolygiadau o safon fyd-eang o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

Y Gynulleidfa

Mae'r canllawiau statudol hyn wedi'u hanelu at y rhai sy'n trefnu, yn cynnal ac yn cymryd rhan mewn DARDR. Mae hyn yn cynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Cadeirydd a Phanel y DARDR, y Comisiynydd Cam-drin Domestig, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, sefydliadau sy'n gweithio gyda dioddefwyr neu gyflawnwyr, cyrff sy'n comisiynu gwasanaethau (gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, a'r GIG) a theulu, ffrindiau a chymuned y dioddefwr.

Mae'r canllawiau'n berthnasol i Loegr a Chymru. Yng Nghymru, maent yn berthnasol i'r graddau y maent yn ymwneud â materion sydd wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y DU; yn bennaf plismona a chyfiawnder troseddol, a materion cyfiawnder sifil a theuluol sy'n gweithredu ar sail Lloegr a Chymru. Yng Nghymru, maent wedi'u hanelu at bersonau a chyrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus mewn perthynas â'r materion hyn, ac sy'n gorfod rhoi sylw i'r canllawiau hyn wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae trefniadau ar wahân yn berthnasol o ran materion datganoledig. Ceir rhagor o wybodaeth am adolygiadau a gynhaliwyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn Adran 5d.

Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) yng Nghymru. Mae'r SUSR yn darparu fframwaith adolygu unedig

[6] Rydym yn cydnabod, mewn rhai amgylchiadau, y gall DARDR ddigwydd tra bod achos y farwolaeth yn dal i gael ei ystyried yn 'hunanladdiad honedig'. Fodd bynnag, at ddibenion y canllawiau statudol hyn, byddwn yn cyfeirio at bob achos honedig a chadarnhaedig o hunanladdiad fel 'marwolaeth drwy hunanladdiad'.

sy'n ymgorffori DARDRs, Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Lladdiadau Arfau Ymosodol, ac fe'i cynhelir pan fodlonir meini prawf un neu fwy o'r adolygiadau hyn. Felly, yng Nghymru, cynhelir DARDRs drwy broses yr SUSR. I gael rhagor o wybodaeth am gynnal DARDR drwy'r SUSR yng Nghymru, cyfeiriwch at Adran 16.

Er mwyn datblygu'r canllawiau hyn, ymgynghorwyd ag amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion statudol, arbenigol a gwirfoddol, ac rydym yn diolch iddynt am eu cyfraniadau. Rydym hefyd yn cydnabod cyfraniad sylweddol Poppy Robinson, y mae ei hymrwymiad hirdymor i'r gwaith hwn wedi llywio datblygiad y canllawiau hyn.

Adran 1: Cyflwyniad i Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig

1 Diben DARDR

1.1 **Diben DARDR yw deall pa wersi y gellir eu dysgu o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, a nodi a gweithredu'r gwersi hyn ar lefel leol a chenedlaethol, er mwyn llywio gwelliannau mewn arferion a diogelu dioddefwyr cam-drin domestig yn well.**

1.2 Nid ymchwiliadau i sut y bu farw'r dioddefwr na phwy sy'n atebol yw DARDRs; mater i grwneriaid a llysoedd troseddol yw penderfynu ar hynny yn ôl yr angen. Nid yw DARDRs yn rhan benodol o unrhyw ymchwiliad neu broses ddisgyblu. Fodd bynnag, bydd cwest crwner ac ymchwiliad gan yr heddlu o gymorth mawr, gan y gall DARDR adolygu'r rhain ac, mewn rhai achosion, nodi tystiolaeth o gam-drin domestig na chafodd ei chydnabod mewn prosesau eraill.

1.3 **Dysgu lleol:** Dylai DARDR nodi pa wersi y gellir eu dysgu o'r farwolaeth. Yn benodol, y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau lleol yn gweithio – ac yn cydweithio – i nodi a diogelu dioddefwyr. Cyn belled ag y bo modd, dylid cynnal yr adolygiad mewn ffordd sy'n gweld y broses fel ymarfer dysgu ac nid fel ffordd o rannu bai. Yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, asiantaethau ac ymatebion aml-asiantaeth, dylid ceisio mewnbwn gan deuluoedd, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr i helpu i lywio'r adolygiad ac unrhyw ddysgu lleol. Mae cymunedau yn chwarae rhan allweddol ochr yn ochr â sefydliadau proffesiynol wrth nodi rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau a bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau lleol, ac wrth benderfynu sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain drwy newidiadau i brosesau a systemau lleol. Dylai'r dysgu hwn lywio'r ymateb lleol i fynd i'r afael â cham-drin domestig.

1.4 **Dysgu cenedlaethol:** Er bod DARDRs wedi'u seilio ar yr ardal leol, mae'n debygol y bydd y broses yn nodi gwersi sy'n berthnasol ar lefel genedlaethol. Lle nodir bylchau y mae angen mynd i'r afael â nhw ar lefel genedlaethol, dylid adlewyrchu'r rhain mewn argymhellion a gyfeirir at yr adran Lywodraeth a'r corff sefydliadol perthnasol (er enghraifft, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a GIG Lloegr neu'r Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona). Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am argymhellion cenedlaethol yn Adran 18.

1.5 **Er mwyn cyflawni ei bwrpas, rhaid i DARDR ganolbwyntio ar y dioddefwr a chael ei gynnal mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.** Dylai DARDR anelu at weld pethau o safbwynt y dioddefwr a'i blant. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i Gadeirydd y DARDR ymdrechu i weithio gyda'r bobl oedd yn agos at y dioddefwr; teulu a ffrindiau, cymdogion, aelodau o'r gymuned, eu cyflogwr, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae hyn yn helpu'r adolygwyr i ddeall realiti'r dioddefwr; i nodi unrhyw rwystrau a wynebwyd gan y dioddefwr ac i ddysgu pam na fu unrhyw ymyriadau yn llwyddiannus wrth atal eu marwolaeth. Yr allwedd i DARDR sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr yw lleoli'r adolygiad yng nghartref, teulu a chymuned y dioddefwr. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am weithio sy'n ystyriol o drawma yn Adran 7a.

1.6 Er y dylai DARDR barhau i ganolbwyntio ar y dioddefwr, dylai ystyried ymgysylltu â'r troseddwr (neu'r troseddwyr) er mwyn helpu'r panel i ddeall yr ystod lawn o heriau sy'n wynebu'r dioddefwr, ac i nodi a oedd cyfleoedd i atal y cyflawnwr rhag cam-drin. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i ymgysylltu'n briodol â chyflawnwyr yn Adran 7d.

2 Meini prawf a diffiniadau ar gyfer DARDR

2.1 O dan Adran 8A(1) Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 [7]"Deddf 2004") (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024), mae Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig (DARDR) yn adolygiad o'r amgylchiadau lle mae marwolaeth person 16 oed neu'n hŷn wedi deillio, neu'n ymddangos fel pe bai wedi deillio, o gam-drin domestig tuag at y person hwnnw. Cynhelir yr adolygiad gyda'r nod o nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth.

2.2 Yn ymarferol, rhaid ystyried DARDR mewn achosion sy'n ymwneud â llofruddiaeth, dynladdiad, hunanladdiad, esgeulustod neu farwolaethau sy'n digwydd mewn amgylchiadau anesboniadwy neu aneglur lle'r oedd y dioddefwr wedi profi cam-drin domestig.

2.3 Oherwydd y nifer posibl o farwolaethau a allai fodloni'r meini prawf hyn, nid ydym yn rhagweld y bydd yn bosibl i bob achos symud ymlaen i DARDR llawn. Fodd bynnag, ym mhob achos, rhaid cynnal Adolygiad Cwmpasu cychwynnol i benderfynu a ddylid comisiynu DARDR llawn ac i sicrhau bod gwersi cynnar yn cael eu nodi. I gael rhagor o wybodaeth am gynnal Adolygiadau Cwmpasu, gweler Adran 4.

2.4 Dylai CSPs ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth benderfynu a ddylid comisiynu DARDR, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

i. Dangosyddion o gam-drin domestig blaenorol, megis:
   - unrhyw ddigwyddiadau blaenorol o gam-drin domestig a adroddwyd i'r heddlu neu asiantaethau eraill (er enghraifft iechyd, addysg neu ofal cymdeithasol);
   - adroddiadau neu ddatgeliadau a wnaed i sefydliadau arbenigol neu wasanaethau cymorth eraill, gan gynnwys elusennau cam-drin domestig.

ii. Arwyddion cynnar o ddysgu posibl, megis:
   - gwybodaeth gan y dioddefwr – gan gynnwys arwyddion a adroddwyd neu anecdotaidd bod cam-drin domestig wedi digwydd cyn y farwolaeth. Gall hyn gynnwys datgeliadau i'r heddlu neu wasanaethau eraill, negeseuon testun, cofnodion dyddiadur, negeseuon e-bost neu gyfathrebiadau eraill wedi'u recordio;
   - gwybodaeth gan deulu, ffrindiau, neu aelodau o'r gymuned – gan gynnwys pryderon, arsylwadau, neu ddatgeliadau sy'n awgrymu y gallai'r dioddefwr fod wedi bod yn profi cam-drin domestig cyn ei farwolaeth;
   - gwybodaeth am wendidau'r dioddefwr – gan gynnwys nad oedd gan y dioddefwr unrhyw hawl i arian cyhoeddus neu ei fod yn destun statws mewnfudo ansicr, camddefnyddio sylweddau, neu fod ganddo anfanteision lluosog[8];
   - ffactorau risg sy'n gysylltiedig â'r troseddwr a amheuir – gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, afiechyd meddwl, ymddygiad gorfodol neu reoli,

[7] Adran 9(1) Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004

[8] Mae 'anfanteision lluosog' yn cyfeirio at bobl sy'n wynebu anghydraddoldebau lluosog sy'n croestorri â'i gilydd – gan gynnwys nodweddion gwarchodedig fel y nodir ym Mhennod 1: Adran 4 Deddf Cydraddoldeb (2010), profiad o droseddau sy'n dod o dan y categori o drais yn erbyn menywod a merched (VAWG), camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl, anableddau, digartrefedd, statws mewnfudo ansicr a dim hawl i gael arian cyhoeddus, bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a symud plant oddi ar y safle ac ofn cael eu symud oddi ar y safle.

cam-drin ar sail 'anrhydedd', camddefnyddio alcohol neu sylweddau, cynnydd mewn ymddygiad camdriniol a gwahanu diweddar, bygythiad o wahanu, neu newidiadau eraill mewn perthynas y gwyddys eu bod yn cynyddu risg fel dod allan yn ddiweddar i aelodau'r teulu a'r gymuned;

- patrymau cyswllt asiantaethau – a oedd y dioddefwr neu'r troseddwr a amheuir wedi ymgysylltu'n ddiweddar â'r heddlu, gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, neu wasanaethau cam-drin domestig arbenigol a allai fod wedi dangos risg;
- hanes o gam-drin domestig – gan gynnwys unrhyw adroddiadau heddlu blaenorol, gorchmynion sifil neu amddiffynnol, Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) neu gyfranogiad fforwm amlasiantaeth arall, neu bryderon diogelu sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr neu'r troseddwr a amheuir; a
- diffyg cyswllt blaenorol ag asiantaethau perthnasol, a allai ddangos nad oedd gwasanaethau wedi cyrraedd y dioddefwr yn effeithiol.

2.5 Nid ymchwiliad troseddol yw DARDR ac nid yw'n ceisio priodoli bai na phenderfynu ar atebolrwydd troseddol. Pwrpas y DARDR yw nodi gwersi o'r camau a gymerwyd, neu na chymerwyd, gan asiantaethau a sefydliadau a allai fod wedi nodi a rheoli unrhyw gam-drin domestig posibl fel risg.

2.6 Mae angen i DARDR nodi dioddefwr a'r sawl a amheuir o gyflawni cam-drin domestig (neu'r rhai a amheuir), neu sail gyd-destunol ar gyfer cam-drin domestig, er mwyn comisiynu adolygiad. Fodd bynnag, gan ei fod yn adolygiad statudol, gall DARDR fynd yn ei flaen hyd yn oed pan nad oes troseddwr wedi'i nodi gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Adran 8A(1) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024:

(1) Yn yr adran hon, ystyr "adolygiad marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig" yw adolygiad o amgylchiadau marwolaeth person a gynhelir —

(a) lle mae'r farwolaeth wedi deillio, neu'n ymddangos ei bod wedi deillio, o gam-drin domestig yn erbyn yr unigolyn o fewn ystyr Deddf Cam-drin Domestig 2021, a

(b) gyda'r nod o nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth.

(2) Mewn achos penodol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo person neu gorff penodedig o fewn is-adran (6) i sefydlu, neu i gymryd rhan mewn, adolygiad marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

(3) Dyletswydd unrhyw berson neu gorff o fewn is-adran (6) sy'n sefydlu neu'n cymryd rhan mewn adolygiad marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig (p'un a gynhelir yn unol â chyfarwyddyd o dan is-adran (2) ai peidio) yw rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch sefydlu a chynnal adolygiadau o'r fath.

(4) Rhaid i berson neu gorff o fewn is-adran (6) sy'n sefydlu adolygiad marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig (p'un a gynhelir yn unol â chyfarwyddyd o dan is-adran (2) ai peidio) anfon copi o unrhyw adroddiad sy'n nodi casgliadau'r adolygiad at yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig.

(5) Rhaid anfon y copi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r adroddiad gael ei gwblhau.

(6) Y personau a'r cyrff o fewn yr is-adran hon yw—

i. prif swyddogion yr heddlu ar gyfer ardaloedd heddlu yn Lloegr ac yng Nghymru;

ii. awdurdodau lleol;

iii. NHS England;

iv. byrddau gofal integredig a sefydlwyd o dan adran 14Z25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;

v. darparwyr gwasanaethau prawf;

vi. Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

vii. ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae Adran 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn diffinio cam-drin domestig fel:

(2) Mae ymddygiad person ("A") tuag at berson arall ("B") yn "gam-drin domestig" os —

(a) Mae A a B ill dau yn 16 oed neu'n hŷn ac yn gysylltiedig â'i gilydd yn bersonol, a
(b) mae'r ymddygiad yn gamdriniol.

(3) Mae ymddygiad yn "gamdriniol" os yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol —

(a) cam-drin corfforol neu rywiol;

(b) ymddygiad treisgar neu fygythiol;

(c) ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol;

(d) cam-drin economaidd (gweler is-adran (4));

(e) cam-drin seicolegol, emosiynol neu fath arall o gam-drin; ac nid oes gwahaniaeth a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gwrs o ymddygiad.

(4) "Mae "cam-drin economaidd" yn golygu unrhyw ymddygiad sydd ag effaith andwyol sylweddol ar allu B i —

(a) cael, defnyddio neu gynnal a chadw arian neu eiddo arall, neu

(b) cael nwyddau neu wasanaethau.

(5) At ddibenion y Ddeddf hon, gall ymddygiad A fod yn ymddygiad "tuag at" B er gwaethaf y ffaith ei fod yn cynnwys ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at berson arall (er enghraifft, plentyn B).

(6) Rhaid darllen cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at fod yn gamdriniol tuag at berson arall yn unol â'r adran hon.

(7) I gael ystyr "cysylltiedig yn bersonol", gweler adran 2.

2a. Achosion heb eu dyfarnu fel lladdiad

2.7 Gall marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig gynnwys dioddefwyr sy'n marw drwy hunanladdiad neu mewn amgylchiadau anesboniadwy neu aneglur.[9] Mae adolygu achosion o hunanladdiad a marwolaethau anesboniadwy sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn gam pwysig wrth barhau i adeiladu'r sail dystiolaeth a gwella'r ddealltwriaeth o'r ffactorau risg i ddioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig y tu allan i gyd-destun lladdiad.

2.8 Er mwyn nodi achosion o hunanladdiad a marwolaeth anesboniadwy y dylid eu hystyried ar gyfer DARDR, dylai CSPs sefydlu cysylltiadau cryf â phartneriaid iechyd cyhoeddus a phrosesau lleol ar gyfer monitro hunanladdiadau yn amser real.

[9] Adroddiad Blwyddyn 5 VKPP ar Laddiadau Domestig ac Hunanladdiadau honedig gan Ddioddefwyr 2020-2025

2.9 Wrth ystyried a ddylid comisiynu DARDR yn dilyn marwolaeth drwy hunanladdiad neu farwolaeth heb ei hesbonio sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, dylai'r CSP ystyried amrywiaeth o ffactorau perthnasol, fel yr amlinellir yn Adran 2 (paragraff 2.4).

Adran 2: Cynnal Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig

Ffigur 1: Map proses adolygu marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig



GRAPHIC ABOVE:

TOP LINE, LEFT TO RIGHT: **Allwedd**: Dechrau/Gorffen / Proses / Penderfyniad

SECOND LINE, LEFT TO RIGHT:

Proses hysbysu / Adolygiad cwmpasu / Comisiynu a chynnal / Sicrwydd ansawdd / Goruchwyliaeth weinidogol/ Cyhoeddi

FIRST COLUMN, TOP TO BOTTOM:

Hysbysir CSP o'r farwolaeth / Ayw'r farwolaeth yn diwallu meini prawf DARDR? / Nac ydy

SECOND COLUMN, TOP TO BOTTOM:

Ydy / CSP yn cynnal adolygiad cwmpasu / CSP yn dosbarthu dysgu cynnar / Symud ymlaen gyda DARDR/ / Na

THIRD COLUMN, TOP TO BOTTOM:

Cyflawni cynllun gweithredu lleol / Cynnal DARDR a chreu cynllun gweithredu DARDR llawn / CSP yn hysbysu'r Swyddfa Gartref ac yn penodi cadeirydd a phanel annibynnol /Ie

FOURTH COLUMN, TOP TO BOTTOM:

Anfon DARDR at Fwrdd SA / Bwrdd SA yn cytuno i gyhoeddi gyda diwygiadau neu'n gofyn am ailgyflwyno / CSP yn anghytuno â phenderfyniad Bwrdd SA y Swyddfa Gartref / Y Bwrdd yn anghytuno â'r penderfyniad i beidio â symud ymlaen â DARDR / Cyflwyno'r penderfyniad i Fwrdd SA y Swyddfa Gartref / Y Bwrdd yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â symud ymlaen â DARDR

FIFTH COLUMN, TOP TO BOTTOM:

Adrannau'r Llywodraeth yn gweithredu i ddefnyddio argymhellion cenedlaethol / Adolygir yr argymhellion gan Fwrdd VAWG Gweinidogol / Yr Ysgrifennydd Cartref yn anghytuno â CSP / Uwchgyfeirio at yr Ysgrifennydd Cartref am benderfyniad / Yr Ysgrifennydd Cartref yn cytuno â CSP / Peidiwch â symud ymlaen â DARDR

SIXTH COLUMN, TOP TO BOTTOM:

Y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi adroddiad terfynol ac yn cofnodi argymhellion cenedlaethol / Anfon copi terfynol at y Swyddfa Gartref am yr ystorfa / Terfynu'r DARDR / CSP yn cyhoeddi DARDR, Cynllun Gweithredu a llythyr adborth ar-lein.

3 Hysbysu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol am farwolaeth

3.1 Dylai heddlu lleol yr ardal hysbysu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) am farwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

3.2 Er bod hysbysiadau fel arfer yn cael eu gwneud gan heddlu lleol yr ardal, nid yw hysbysiadau wedi'u cyfyngu i'r heddlu. Pan fydd unigolion neu gyrff perthnasol, gan gynnwys ffrindiau neu aelodau o deulu'r ymadawedig, yn dod yn ymwybodol o amgylchiadau cymwys marwolaeth, neu o ffeithiau sy'n ei gwneud hi'n debygol bod yr amodau yn adran 8A o Ddeddf 2004 wedi'u bodloni mewn perthynas â marwolaeth, gellir gwneud hysbysiad yn uniongyrchol i'r CSP lleol.

3.3 Dylid cysylltu â'r CSP yn ysgrifenedig yn y lle cyntaf, er enghraifft drwy e-bost, i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir wedi'i dogfennu a'i dyddio'n briodol. Efallai y bydd ffrindiau neu aelodau o'r teulu yn ei chael hi'n ddefnyddiol cysylltu ag asiantaeth statudol neu wasanaeth cymorth arbenigol a oedd wedi bod mewn cysylltiad blaenorol â'r ymadawedig i gael cymorth wrth gysylltu â'r CSP.

4 Proses yr Adolygiad Cwmpasu

4.1 Dylai'r CSP gynnal Adolygiad Cwmpasu ar gyfer pob marwolaeth a atgyfeirir atynt ar gyfer DARDR. Gellir cynnal yr Adolygiad Cwmpasu fel ymarfer desg neu gall y CSP ddewis cynnull panel neu ddefnyddio strwythurau gwneud penderfyniadau presennol.

4.2 Bydd yr Adolygiad Cwmpasu yn cefnogi'r CSP i benderfynu a ddylid comisiynu DARDR. Ei bwrpas yw:

- asesu a oes angen DARDR llawn (ni ddylai Adolygiadau Cwmpasu gymryd lle'r broses DARDR);
- nodi cwmpas a pharamedrau tebygol yr adolygiad sydd ei angen;
- penderfynu ai DARDR yw'r fecanwaith adolygu mwyaf priodol, gan gynnwys a allai prosesau adolygu eraill fod yn fwy addas (gweler adran 8 ar adolygiadau cyfochrog am ragor o wybodaeth);
- casglu gwersi cynnar o'r farwolaeth fel y gellir nodi gwelliannau a gweithredu arnynt yn gyflym; a
- nodi gwersi ar gyfer achosion nad ydynt yn symud ymlaen i fod yn DARDRs llawn, gan sicrhau na chollir unrhyw fewnwelediadau.

4.3 Mewn achosion lle mae'r meini prawf ar gyfer DARDR yn cael eu bodloni'n glir, dylid cynnal yr Adolygiad Cwmpasu yn brydlon ac heb oedi diangen, gyda'r nod o alluogi asiantaethau lleol i rannu mewnwelediadau a gwersi cynnar yn gyflym.

4.4 Dylai'r CSP hysbysu teulu'r dioddefwr bod Adolygiad Cwmpasu yn cael ei gynnal. Dylid egluro'r broses yn glir a cheisio barn y teulu ynghylch a ddylid comisiynu DARDR. Rhaid rheoli'r broses ymgysylltu hon yn sensitif, a dylid cynnig eiriolaeth arbenigol annibynnol i'r teulu cyn gynted â phosibl.

4.5 Mae adnoddau ar gael i aelodau o'r teulu a ffrindiau sy'n darparu gwybodaeth glir am broses y DARDR. Dylid rhannu'r rhain fel rhan o ymgysylltiad y CSP â'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y farwolaeth.

4.6 Gall yr Adolygiad Cwmpasu hefyd helpu i nodi a oes unrhyw achosion troseddol ar y gweill y bydd angen i Gadeirydd y DARDR fod yn ymwybodol ohonynt. Nodir gwybodaeth bellach am reoli DARDRs yn yr achosion hyn yn Adran 9.

4a. Cynnal y Broses Adolygiad Cwmpasu

4.7 Gellir dod o hyd i'r templed Adolygiad Cwmpasu yn Atodiad C[10]. Rhaid i bob Adolygiad Cwmpasu gynnwys:

- crynodeb cryno o'r digwyddiadau a arweiniodd at y farwolaeth;
- crynodeb o ryngweithio asiantaethau (os o gwbl) â'r dioddefwr a'r cyflawnwr;
- gwersi a themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg;
- cynllun gweithredu, yn amlinellu unrhyw welliannau uniongyrchol neu dymor byr sydd eu hangen;
- barn y teulu a/neu ffrindiau;
- penderfyniad ynghylch a fydd DARDR yn cael ei gomisiynu, gan gynnwys rhesymeg glir i gefnogi'r penderfyniad i beidio â chomisiynu DARDR (gweler Adran 4b am ragor o wybodaeth);
- a fydd DARDR yn cael ei gomisiynu ond bod angen ei ohirio oherwydd achos troseddol parhaus. Gweler Adran 9a am ragor o wybodaeth; ac
- ar gyfer achosion hanesyddol, dylai CSPs ystyried a allai'r gwersi posibl fod yn gyfyngedig oherwydd newidiadau i strwythurau sefydliadol, arferion lleol, neu ddeddfwriaeth ers i'r farwolaeth ddigwydd.

4.8 Yn dilyn cwblhau'r Adolygiad Cwmpasu, mae'r CSP yn gyfrifol am benderfynu a ddylid comisiynu DARDR.

4.9 Rhaid i'r CSP hysbysu Tîm DARDR y Swyddfa Gartref bod adolygiad yn cael ei gychwyn drwy anfon e-bost at dardrenquiries@homeoffice.gov.uk. Rhaid ystyried ac ymhelaethu ymhellach ar unrhyw ganfyddiadau cynnar, themâu sy'n dod i'r amlwg neu gynlluniau gweithredu a nodwyd yn ystod yr Adolygiad Cwmpasu fel rhan o'r DARDR llawn.

4b. Penderfyniadau i beidio â chynnal DARDR

4.10 Pan fydd y CSP yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â DARDR, rhaid cyflwyno'r Adolygiad Cwmpasu wedi'i gwblhau i Dîm DARDR y Swyddfa Gartref yn: dardrenquiries@homeoffice.gov.uk.

4.11 Rhaid i benderfyniad i beidio â chynnal DARDR fod yn seiliedig ar y cwestiwn a yw'n debygol y bydd adolygiad llawn yn darparu gwersi ychwanegol ac ystyrlon. Rhaid cofnodi'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn yn glir yn yr Adolygiad Cwmpasu.

4.12 Gall CSPs benderfynu peidio â bwrw ymlaen pan fydd y **ddau** amod canlynol yn cael eu bodloni:

[10] Ar gyfer SUSRs, bydd y Byrddau Diogelu yng Nghymru yn parhau i ddefnyddio templedi Adroddiad SUSR a Chynllun Gweithredu SUSR.

- Ychydig iawn o ymgysylltiad gan asiantaethau â'r dioddefwr neu'r troseddwr, os o gwbl; **a**
- Dim ond gwybodaeth neu ymwybyddiaeth gyfyngedig – neu ddim o gwbl – sydd gan aelodau o'r teulu, ffrindiau neu'r gymuned ehangach fod cam-drin domestig wedi digwydd.

4.13 Rhaid i CSPs arddangos bod pob cyfle rhesymol i ddysgu wedi'i archwilio. Rhaid i'r Adolygiad Cwmpasu ddarparu tystiolaeth glir o sut mae'r **ddau** amod uchod yn berthnasol, a nodi pam na fyddai adolygiad llawn yn ychwanegu gwerth pellach.

4.14 Lle bo modd, dylai CSPs ymgysylltu â theuluoedd mewn modd sensitif i gasglu gwybodaeth a allai lywio'r penderfyniad. Gall teuluoedd feddu ar fewnwelediadau pwysig ynghylch natur a graddau'r cam-drin nad oedd asiantaethau'n ymwybodol ohonynt. Fodd bynnag, os yw teuluoedd yn dewis peidio â chymryd rhan weithredol yn y broses, mae'n bwysig bod CSPs yn cofnodi safbwynt y teulu yn glir fel rhan o'r Adolygiad Cwmpasu.

4.15 Ni ddylid hysbysu teuluoedd na fydd adolygiad yn cael ei gynnal nes bod y broses gwneud penderfyniadau wedi'i chwblhau, a bod adborth ffurfiol wedi'i dderbyn gan Fwrdd Sicrhau Ansawdd (SA) y Swyddfa Gartref. Nod y dull hwn yw atal trallod diangen a achosir gan gyfathrebiadau mynych neu gyfathrebiadau sy'n newid.

4.16 Bydd pob Adolygiad Cwmpasu lle mae'r CSP wedi penderfynu peidio â chynnal DARDR yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Sicrhau Ansawdd (SA) y Swyddfa Gartref. Bydd y Bwrdd SA yn adolygu a yw'r achos yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer DARDR ac yn ystyried y rhesymeg a ddarparwyd yn yr Adolygiad Cwmpasu. Bydd y Bwrdd SA yn anelu at hysbysu'r CSP o fewn 8 wythnos i'r dyddiad y maent yn cydnabod derbyn yr hysbysiad ynghylch a yw'n:

- Cytuno â'r penderfyniad i beidio â chomisiynu DARDR, neu
- Argymell y dylid cynnal DARDR llawn.

4.17 Pan fydd y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd yn argymell y dylid comisiynu DARDR ac mae'r CSP yn mynnu na ddylid cynnal DARDR, caiff y penderfyniad ei uwchgyfeirio at yr Ysgrifennydd Cartref. Mae gan yr Ysgrifennydd Cartref y pŵer i gyfarwyddo CSP i gynnal DARDR pan ystyrir ei fod yn briodol o dan adran 8A(2) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

4.18 Unwaith y derbynnir penderfyniad y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd, neu benderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref (os yw'r mater wedi'i uwchgyfeirio ato), dylid rhannu'r canlyniad â theulu'r dioddefwr heb oedi diangen.

4.19 Mae CSPs yn gyfrifol am rannu unrhyw wersi a nodwyd yn ystod yr Adolygiad Cwmpasu mewn achosion nad ydynt yn symud ymlaen i DARDR llawn.

Ffigwr 2: Crynodeb o'r broses Adolygiad Cwmpasu



GRAPHIC ABOVE: TOP LINE:
Cam 1: Cychwyn ac ymgysylltu â'r teulu

NEXT LINE, LEFT TO RIGHT:
Gweithredu – CSP yn cynnal Adolygiad Cwmpasu _naill ai un desg neu gan banel) ar gyfer pob marwolaeth a atgyfeirir. **Cysylltu â'r teulu –** Hysbysu teulu'r dioddefwr, esbonio'r broses a cheisio eu barn ynghylch a ydynt yn credu y dylid comisiynu DARDR. **Cymorth –** Dylid rheoli'r broses yn sensitif, a dylid cynnig eiriolaeth arbenigol annibynnol cyn gynted â phosibl. **Adnoddau –** Darparu gwybodaeth am y broses DARDR i'r teulu a ffrindiau.

Cam 2: Cynnal yr Adolygiad Cwmpasu

NEXT LINE, first column of bullet points:
. crynodeb o ddigwyddiadau a arweiniodd at y farwolaeth; . crynodeb o ryngweithiadau gan yr asiantaeth â'r dioddefwr a'r cyflawnwr (os o gwbl); . gwersi a themáu arwyddocaol; . cynllun gweithredu; . barn y teulu/ffrindiau ynghylch a ydynt yn credu y dylid comisiynu DARDR.

Second column of bullet points:
. a fydd DARDR yn cael ei gomisiynu neu resymeg i gefnogi penderfyniad I beidio â chomisiynu DARDR lle bo'n berthnasol.

Cam 3: Y penderfyniad ynghylch comisiynu

Opsiwn 1: Meini prawf i gomisiynu DARDR wedi'u diwallu. Hysbysu'r Swyddfa Gartref a symud ymlaen yn gyflymi DARDR llawn a dosbarthu canfyddiadau cynnar**. Opsiwn 2:** Mewn rhai achosion, diwallir y meini prawf ar gyfer DARDR, ond oedir comisiynu er mwyn i achos troseddol ddigwydd. **Opsiwn 3:** Meini prawf i gomisiynu DARDR heb eu diwallu. Darparu rhesymeg a chyflwyno'r Adolygiad Cwmpasu i Fwrdd SA'r Swyddfa Gartref. Peidiwch ag hysbysu'r teulu o'r penderfyniad nes bod adborth ffurfiol wedi'i dderbyn.

Cam 4: Sicrwydd Ansawdd a dyfarniad terfynol

LEFT TO RIGHT:
Adolygiad Bwrdd SA y Swyddfa Gartref: Mae adolygiadau o benderfyniadau i beidio â chynnal DARDR yn cymryd oddeutu 8 wythnos i'w cwblhau.
Argymhelliad y Bwrdd: . Cytundeb i beidio â chynnal: CSP yn hysbysu'r teulu o'r penderfyniad terfynol heb oedi. Argymhelliad i gynnal: Os yw CSP yn anghytuno, uwchgyfeirir yr achos i;r Ysgrifennydd Cartref.
Pŵer terfynol: O dan Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn adolygu'r achos a gall gyfarwyddo'r CSP i gynnal DARDR.

5 Cydlynu Adolygiad Marwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig ar lefel leol

5.1 Unwaith y bydd Adolygiad Cwmpasu wedi'i gwblhau a'r penderfyniad i fwrw ymlaen â DARDR wedi'i wneud, dylai'r CSP gomisiynu DARDR yn ffurfiol cyn gynted â phosibl.

5a. Cynnull Panel DARDR

5.2 Pan wneir penderfyniad i gynnal DARDR, rhaid i'r CSP sefydlu Panel DARDR lleol.

5.3 Rhaid i'r Panel DARDR gynnwys unigolion o'r asiantaethau statudol a restrir o dan adran 8A(4) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, fel y nodir yn Meini prawf a diffiniadau ar gyfer DARDR Dylai hefyd gynnwys cynrychiolaeth o'r gwasanaethau arbenigol VAWG[11] [12] cenedlaethol neu leol, a chynrychiolwyr arbenigol sy'n cynrychioli grwpiau ymylol – o sefydliadau 'gan ac ar gyfer' ac arbenigol – a fydd â gwybodaeth am ddynameg cam-drin domestig a sut mae'n amlygu ei hun, ac a all gynrychioli safbwynt y dioddefwr a/neu, lle bo'n briodol, y cyflawnwr. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cynrychiolaeth gan sefydliadau sy'n arbenigo mewn cefnogi dioddefwyr gwryw, dioddefwyr hŷn, cam-drin sy'n ymwneud ag 'anrhydedd', neu atal hunanladdiad.

5.4 Rhaid i aelodau'r panel fod yn annibynnol ar unrhyw drefniadau rheoli llinell ar gyfer staff sy'n ymwneud â'r achos. Rhaid iddynt hefyd fod yn ddigon uchel eu safle i gael yr awdurdod i ymrwymo i benderfyniadau a wneir ar ran eu hasiantaeth yn ystod cyfarfod panel, ac i arddangos sut y byddant yn sicrhau bod gwersi'n cael eu hymgorffori yn eu sefydliad.

5.5 Disgwyliadau o ran ymgysylltiad y panel drwy gydol y broses DARDR:

- Dylai aelodau'r Panel allu mynychu cyfarfodydd DARDR yn gyson.
- Rhaid i'r Panel gyfarfod i gytuno ar gwmpas a chylch gorchwyl y DARDR yn y cyfarfod cychwynnol.
- Rhaid i'r Panel gyfarfod i adolygu a thrafod yr Adolygiadauc Rheol iUbigol (IMRs).
- Rhaid i'r Panel gyfarfod i drafod a chytuno ar ddrafft terfynol y DARDR.
- Anogir y Panel i gyfarfod bob chwarter i dderbyn diweddariadau gan Gadeirydd y DARDR ac i ddarparu adborth a herio trwy gydol y broses.
- Dylai aelodau'r Panel ystyried eu hunain yn gyd-gynhyrchwyr y DARDR. Felly, dylent geisio cymryd rhan yn y broses o greu'r Cylch Gorchwyl, craffu ar wybodaeth a gasglwyd i nodi gwersi, a chymryd rhan yn natblygiad terfynol y DARDR.

[11] Wrth gyfeirio at y sector arbenigol VAWG, mae hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi dioddefwyr gwryw y troseddau hyn hefyd.
[12] Y Swyddfa Gartref. Datganiad cenedlaethol o ddisgwyliadau ynghylch trais yn erbyn menywod a merched: 2022

- Dylai aelodau'r Panel ddefnyddio eu harbenigedd i ystyried a herio Cadeirydd y DARDR a'r canfyddiadau interim mewn ffordd adeiladol, er mwyn sicrhau bod yr adolygiad yn ystyried yr holl faterion perthnasol yn gynhwysfawr. Anogir trafodaeth; fodd bynnag, rhaid i unrhyw anghytundebau rhwng aelodau'r Panel gael eu datrys gan yr aelodau a Chadeirydd y DARDR. Os na ellir eu datrys, bydd angen i'r DARDR gofnodi'r meysydd anghytundeb a'r camau a gymerwyd tuag at ddatrysiad. Ni fydd y Swyddfa Gartref yn gweithredu fel cymrodeddwr pan fydd anghytundeb.

- Dylai aelodau'r Panel fod yn ymwybodol o'u lles meddyliol, gan fod DARDRs yn aml yn golygu dod i gysylltiad â gwybodaeth sy'n achosi gofid mawr; gall hyn fod yn arbennig o anodd i aelodau sy'n cyfrannu at DARDRs olynol, yn ogystal ag adolygiadau statudol eraill.

- Dylai aelodau'r Panel gydweithio â'u sefydliadau eu hunain a rhannu'r gwersi a ddysgwyd o DARDRs â hwy, lle bo hynny'n berthnasol.

5.6 Rhaid i'r CSP fod â strwythurau llywodraethu lleol ar waith i fonitro gweithrediad cynllun gweithredu'r DARDR. Dylai'r CSP sicrhau bod Panel y DARDR yn ymwybodol o hyn ac o'i gyfrifoldebau yn ei gylch.

5b. Penodi Cadeirydd ar gyfer y DARDR

5.7 Mae'r CSP yn gyfrifol am benodi Cadeirydd annibynnol ar gyfer Panel DARDR lleol. Er mwyn sicrhau annibyniaeth, rhaid i'r CSP adolygu a oes ganddynt gysylltiadau ag unrhyw aelodau o'r panel neu sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli (boed yn bersonol neu'n broffesiynol). Ni ddylai Cadeirydd y DARDR fod â chysylltiad uniongyrchol, na bod ag unrhyw gysylltiad diweddar, ag unrhyw asiantaethau sy'n ymwneud â'r DARDR neu'r CSP. Dylid cynnwys 'datganiad annibyniaeth' fel atodiad i'r DARDR, yn nodi hanes gyrfa'r Cadeirydd, ei statws annibynnol ac unrhyw wrthdaro buddiannau.

5.8 Mae Cadeirydd y DARDR yn gyfrifol am lunio adroddiad terfynol y DARDR yn seiliedig ar dystiolaeth y mae Panel y DARDR yn penderfynu ei bod yn berthnasol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr adroddiad o safon uchel ac yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol.

5.9 Mae Cadeirydd y DARDR yn gyfrifol am feithrin a chynnal perthnasoedd ymhlith aelodau Panel y DARDR a rhwng Panel y DARDR a'r asiantaethau, y sefydliadau, yr unigolion a'r teuluoedd sy'n cymryd rhan. Felly, dylid datgan unrhyw wrthdaro buddiannau ar adeg y broses recriwtio ac unrhyw bryd y bydd yn codi yn ystod proses y DARDR. Mae Cadeirydd y DARDR hefyd yn gyfrifol am arwain y gwaith o ymgysylltu â theulu, ffrindiau a chymuned y dioddefwr, ac â'r cyflawnwr lle bo hynny'n briodol.

5.10 Mae Cadeirydd y DARDR yn gyfrifol am ddiwygio'r adroddiad yn unol ag adborth gan y Bwrdd SA a rhaid iddo barhau i fod yn rhan o broses y DARDR hyd at y pwynt cyhoeddi.

5.11 Mae'n ofynnol i'r Cadeirydd ddefnyddio'r templed DARDR a ddarperir yn Atodiad A. Dylid anfon fersiwn derfynol o'r DARDR a'r Sgema DARDR cysylltiedig at y CSP i gael cymeradwyaethau llywodraethu lleol, ac yna eu hanfon at y Swyddfa Gartref. Mae copi o'r Ffurflen Casglu Data DARDR wedi'i gynnwys fel Atodiad H.

5.12 O hyn ymlaen, rhaid i unrhyw unigolyn y mae'r CSP yn bwriadu ei benodi'n Gadeirydd DARDR fod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer Cadeiryddion DARDR er mwyn bod yn gymwys i gadeirio adolygiad. Pwrpas hyn yw sicrhau bod Cadeiryddion DARDR yn gallu cynnal DARDR yn effeithiol, nodi'n llwyddiannus yr holl wersi perthnasol, a datblygu argymhellion a fydd yn gwella diogelwch dioddefwyr cam-drin domestig ac yn atal marwolaethau pellach.

5.13 Gall CSPs ofyn am fynediad at y gofrestr swyddogol o Gadeiryddion DARDR cymwys drwy gysylltu â training@aafda.org.uk. Mae'r gofrestr yn darparu gwybodaeth berthnasol am Gadeiryddion, gan gynnwys profiad gwaith, manylion cyswllt, a phryd y cawsant y Dystysgrif mewn Cadeirio DARDR.

5.14 Dylai CSPs ystyried sgiliau ac arbenigedd unrhyw unigolion y maent yn bwriadu eu penodi'n Gadeirydd DARDR. Yn ogystal â chwblhau'r hyfforddiant Cadeirio, dylai'r CSP fod yn hyderus bod gan Gadeirydd DARDR y canlynol:

- Gwybodaeth am bolisi a deddfwriaeth:
  - gwybodaeth arbenigol am bolisi cam-drin domestig, gan gynnwys ymchwil, canllawiau a deddfwriaeth sy'n ymwneud ag oedolion a phlant, gan gynnwys er enghraifft Deddf Cam-drin Domestig 2021, Canllawiau Statudol Deddf Cam-drin Domestig (2022), Fframwaith Canllawiau Statudol ar Ymddygiad Rheoli neu Gymhellol (2023), a Deddf Troseddau Difrifol 2015[13], Deddf Plant 2004[14], Deddf Gofal 2014[15] a Deddf Cydraddoldeb 2010;
  - dealltwriaeth o rôl a chyd-destun y prif asiantaethau sy'n ymwneud â DARDR;
  - dealltwriaeth o fframweithiau adolygu statudol ehangach.

- Profiad ymarferol:
  - dealltwriaeth o arferion sy'n ystyriol o drawma, a phrofiad ohonynt;
  - mae profiad o gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig, neu brofiad rheng flaen yn y sector cam-drin domestig, yn fanteisiol er nad yw'n hanfodol;
  - profiad o reoli rhanddeiliaid niferus.

- Sgiliau dadansoddol a chyfathrebu:
  - y gallu i gyfuno gwybodaeth gymhleth a llunio asesiad strategol;
  - sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da;
  - profiad o ysgrifennu adroddiadau ffurfiol.

- Sensitifrwydd pwnc:
  - dealltwriaeth glir o natur cyfrinachedd;
  - dealltwriaeth o brofiadau ac anghenion personol unigolyn, a'r effaith sydd gan hynny ar brofiadau'r unigolyn gydag asiantaethau.

5.15 Argymhellir bod CSPs yn gofyn i Gadeiryddion gynnal gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn ymgymryd ag adolygiad.

[13] Deddf Troseddu Difrifol 2015
[14] Deddf Plant 2004
[15] Deddf Gofal 2014

5.16 Yn ystod DARDR, dylai Cadeiryddion fod yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu lleol. Os bydd y Cadeirydd yn nodi unrhyw bryderon diogelu cyfredol neu uniongyrchol, dylid eu hadrodd i'r asiantaeth neu'r awdurdodau perthnasol yn ddi-oed.

5.17 Dylai CSPs wirio argaeledd y Cadeirydd a chadarnhau eu bod ar gael i gynnal y DARDR wrth eu penodi, er mwyn sicrhau nad yw'r adolygiad yn cael ei ohirio'n ddiangen.

5c. Adolygiadau trawsffiniol

5.18 Lle mae mwy nag un ardal awdurdod lleol wedi bod mewn cysylltiad â'r dioddefwr ac yn dal gwybodaeth berthnasol amdano, dylai'r CSP ar gyfer yr ardal lle'r oedd y dioddefwr yn byw yn bennaf [16] gymryd y prif gyfrifoldeb dros gomisiynu a goruchwylio'r adolygiad.

5.18.1 Lle nad oes gan y dioddefwr gyfeiriad sefydlog neu sefydledig cyn y digwyddiad, dylai'r prif gyfrifoldeb fel arfer fod gyda'r CSP ar gyfer yr ardal lle'r oedd yn hysbys ddiwethaf bod y dioddefwr yn byw neu lle'r oedd wedi treulio amser yn rheolaidd. Dylid penderfynu hyn ar ddechrau'r broses a'i gadw dan adolygiad, gan ystyried amgylchiadau penodol yr achos.

5.18.2 Gall fod amgylchiadau lle na fydd yn hawdd penderfynu ar y prif gyfrifoldeb am gynnal adolygiad oherwydd natur gymhleth yr achos. Mewn achosion o'r fath, cynghorir yn gryf bod y CSPs perthnasol yn cytuno ar rannu'r prif gyfrifoldebau a'r cyfrifoldebau a rennir fel rhan o'r broses gwmpasu gychwynnol, er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen ac i sicrhau bod dysgu'n cael ei gasglu gan yr holl asiantaethau a'r ardaloedd daearyddol perthnasol.

5d. Adolygiadau a gynhaliwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

5.19 Mae gwahaniaethau rhwng y modelau adolygu yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

5.20 Yn Lloegr ac yng Nghymru, mae DARDRs a SUSRs yn berthnasol i farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig lle'r oedd y dioddefwr yn 16 oed neu'n hŷn, ac yn cael ei ystyried yn bersonol gysylltiedig â'r troseddwr, fel y diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021. Gall yr adolygiadau hyn gynnwys lladdiadau, hunanladdiadau a marwolaethau sy'n digwydd o dan amgylchiadau anesboniadwy neu aneglur, lle mae tystiolaeth y gallai cam-drin domestig fod wedi bod yn ffactor cyfrannol.

5.21 I gael gwybodaeth am gynnal adolygiadau yng Nghymru, gan gynnwys gweithrediad fframwaith SUSR, gweler Adran 16 ar yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR).

5.22 Mae Adolygiadau Lladdiad a Hunanladdiad Domestig (DHSRs) yn yr Alban yn gweithredu o dan Ddeddf Moderneiddio Cyfiawnder Troseddol ac Adolygiadau

[16] At ddibenion DARDR, mae "preswylio'n bennaf" yn golygu'r man lle'r oedd prif gartref a chanolfan bywyd bob dydd yr unigolyn, yn ôl cydbwysedd y dystiolaeth, ar adeg ei farwolaeth neu yn y cyfnod yn union cyn hynny.

Ymddygiad Domestig Camdriniol (yr Alban) 2025[17], sy'n darparu fframwaith statudol ar gyfer y model. Dechreuodd DHSRs yn yr Alban ar 1 Ebrill 2026.

5.23 Mae cwmpas DHSRs yn yr Alban yn cynnwys adolygu marwolaethau sy'n gysylltiedig â thrais domestig yn yr amgylchiadau canlynol:

- lle caiff dioddefwr ei ladd gan bartner neu gyn-bartner;
- lle mae person yn lladd eu plant neu blant (o unrhyw oedran, e.e. person 45 oed sy'n byw yn annibynnol) eu partner neu gyn-bartner;
- achosion o wrthwynebiad treisgar, lle mae dioddefwr cam-drin domestig yn lladd eu partner neu gyn-bartner camdriniol;
- lle mae person yn lladd plant neu bobl ifanc (o dan 18 oed, neu hyd at 26 oed ar gyfer unigolion sydd â phrofiad o ofal) sy'n byw yn yr un cartref â hwy neu â'u partner neu gyn-bartner;
- hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig; a
- marwolaethau cysylltiedig plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a fu farw fel rhan o farwolaeth (neu ddigwyddiad a oedd bron yn angheuol) yn ymwneud â cham-drin domestig, ond a allai fod yn gysylltiedig â'r dioddefwr neu'r cyflawnwr ai peidio. Er mwyn i farwolaeth person ifanc gael ei hystyried yn gysylltiedig, rhaid iddynt fod o dan 18 oed, neu hyd at 26 oed os oeddent wedi bod yn derbyn gofal yn flaenorol.

5.24 Nid yw Adolygiadau Lladdiadau Domestig (DHSRs) yn yr Alban yn cynnwys marwolaethau aelodau ehangach o'r teulu y tu hwnt i'r categorïau a nodir uchod. Ar gyfer achosion trawsffiniol sy'n gofyn am gydweithredu â'r Alban, dylid anfon ymholiadau at dhsrmodel@gov.scot.

5.25 Yng Ngogledd Iwerddon, mae Adolygiadau Lladdiadau Domestig wedi bod ar waith ers 2020. Cynhelir adolygiadau pan fydd person dros 16 oed wedi marw o ganlyniad i drais a chamdriniaeth ddomestig, neu pan ymddengys bod y farwolaeth wedi deillio o hynny[18]. Pwrpas yr adolygiad yw nodi gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth er mwyn gwella ymateb asiantaethau.

5.26 Nid yw DHRs yng Ngogledd Iwerddon yn cynnwys hunanladdiadau ac nid ydynt yn berthnasol i farwolaethau plant dan 16 oed. Ar gyfer achosion trawsffiniol sy'n gofyn am gydweithio â Gogledd Iwerddon, dylid anfon ymholiadau at dhradmin@justice-ni.gov.uk.

5.27 Gall rhai DARDRs gynnwys achosion lle'r oedd y dioddefwr neu'r troseddwr yn byw mewn rhan arall o'r DU am gyfnod o amser, neu wedi cael mynediad at wasanaethau yno. Mewn achosion o'r fath, anogir cydweithio trawsffiniol yn gryf, lle bo'n briodol, i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu a bod dysgu'n adlewyrchu ystod lawn cyfranogiad asiantaethau. Am wybodaeth ynghylch marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig sy'n digwydd dramor, gweler Adran 11: Marwolaethau Tramor.

[17] Deddf Moderneiddio Cyfiawnder Troseddol ac Adolygiadau o Ymddygiad Camdriniol yn y Cartref (yr Alban) 2025
[18] Adolygiadau o Laddiadau Domestig (DHRs) | NIdirect

6 Cynnal yr Adolygiad o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig

6.1 Mewn ymgynghoriad â Phanel y DARDR, dylai Cadeirydd y DARDR bennu cwmpas y DARDR a llunio Cylch Gorchwyl. Dylai Cadeirydd y DARDR ddrafftio'r Cylch Gorchwyl a rhaid ei rannu â Phanel y DARDR i gael sylwadau a chytundeb. Yn ogystal, dylid rhannu'r Cylch Gorchwyl â theulu a ffrindiau'r dioddefwr os ydynt yn ymgysylltu â'r DARDR, a dylid ystyried eu barn. Efallai y bydd angen adolygu'r rhain wrth i'r DARDR fynd rhagddo ac wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg. Bydd angen i Banel y DARDR gytuno ar unrhyw ailystyriaeth neu newidiadau i'r dogfennau hyn.

6.2 Os rhagwelir y bydd DARDR yn rhedeg ochr yn ochr ag ymchwiliad troseddol neu erlyniad, dylai Cadeirydd y DARDR hysbysu'r heddlu. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r heddlu fynegi eu barn a chyfrannu at Gylch Gorchwyl y DARDR cyn iddo gael ei gwblhau.

6a. Cwmpas y DARDR a'r Cylch Gorchwyl

12.4 Os oes gan Gadeirydd a Phanel y DARDR bryderon ynghylch adnabod unigolion sy'n gysylltiedig neu ynglŷn â chyhoeddi'r DARDR llawn oherwydd materion preifatrwydd, cyfeiriwch at Adran 15a: Penderfyniad i beidio â chyhoeddi DARDR.

13 Diogelu data

13.1 Dylid trin DARDRs fel dogfennau drafft a chyfyngedig nes bod y broses sicrhau ansawdd wedi'i chwblhau a bod y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd wedi cymeradwyo'r adroddiad. Felly, dylid cyfyngu mynediad at DARDRs drafft i'r rhai sydd â rôl glir yn y broses adolygu. Nes cânt eu cyhoeddi, dylid nodi holl ddogfennau DARDR fel '**Swyddogol-Sensitif**'.

13.2 Mae paratoi, trin a chyhoeddi DARDRs yn ddarostyngedig i Ddeddf Diogelu Data 2018[40] (DPA) a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR). Dylai Cadeirydd y DARDR a'r partneriaid perthnasol ystyried yn ofalus a oes angen golygu rhannau o'r DARDR er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data ac atal datgelu amhriodol. Yn benodol, rhaid iddynt sicrhau nad yw gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y DARDR yn tanseilio unrhyw ymchwiliadau troseddol parhaus neu ymchwiliadau yn y dyfodol, nac yn peryglu diogelwch unrhyw berson, gan gynnwys aelodau o deulu'r dioddefwr, tystion neu bersonau bregus eraill. Mae'n bwysig nodi y gall DARDR sydd wedi'i olygu barhau i gynnwys data personol os gellir casglu pwy yw'r dioddefwr, y troseddwr neu unigolyn arall o'r wybodaeth sydd ynddo.

Seiliau Cyfreithlon ar gyfer Prosesu Data Personol

13.3 At ddiben DARDR, mae tair sail gyfreithlon o dan Erthygl 6 y GDPR y gellir dibynnu arnynt wrth brosesu data. Gall hyn fod yn berthnasol i bob DARDR, gan gynnwys achosion lle bu farw'r dioddefwr o ganlyniad i hunanladdiad neu mewn amgylchiadau anesboniadwy neu aneglur:

13.3.1 **Rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c))**: mae prosesu'r data yn gyfreithlon pan fo angen gwneud hynny er mwyn i'r corff perthnasol gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Nid yw hyn yn gofyn am ddarpariaeth statudol benodol sy'n mandadu pob gweithred brosesu unigol, ond rhaid i'r broses o brosesu fod yn angenrheidiol i gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol ehangach sy'n deillio naill ai o'r gyfraith gyffredin neu o statud, megis sefydlu a chynnal DARDR o dan adran 8A o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024). Mae'n debygol y bydd Erthygl 6(1)(e) yn berthnasol mewn llawer o achosion lle mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â sefydlu a chynnal DARDR. Fodd bynnag, mae

[40] Deddf Diogelu Data 2018

sefydliadau'n parhau i fod yn gyfrifol am nodi'r sail gyfreithlon briodol ar gyfer eu gweithgareddau prosesu.

13.3.2 **Tasg gyhoeddus (Erthygl 6(1)(e))**: gall prosesu'r data fod yn gyfreithlon pan fo angen gwneud hynny er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd, neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i'r corff perthnasol. Nid yw hyn yn gofyn am ddarpariaeth statudol benodol sy'n mandadu pob gweithred brosesu unigol, ond rhaid i'r broses o brosesu fod yn angenrheidiol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdod swyddogol sydd â sail ddigon clir yn y gyfraith.

13.3.3 **Buddiant cyfreithlon (Erthygl 6(1)(f))**: gall prosesu'r data fod yn gyfreithlon lle mae'n angenrheidiol er buddiannau cyfreithlon y rheolwr data neu drydydd parti (e.e. Cadeirydd neu Banel DARDR), ac eithrio lle mae'r buddiannau hynny'n cael eu diystyru gan hawliau a rhyddid yr unigolyn. Mae dibynnu ar y sail hon yn gofyn am ystyried:

Diben: a yw'r corff yn dilyn buddiant dilys?

Angenrheidrwydd: a yw'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer y diben hwnnw?

Cydbwyso: a yw buddiannau'r unigolyn yn drech na'r buddiant dilys?

13.4 Gall y sail gyfreithiol y dibynnir arni amrywio yn dibynnu ar natur y sefydliad a'r prosesu sy'n cael ei wneud. Mae'n debygol y bydd awdurdodau cyhoeddus sy'n cyflawni eu swyddogaethau statudol mewn cysylltiad â DARDR yn dibynnu ar Erthygl 6(1)(c) a/neu Erthygl 6(1)(e). Efallai y bydd angen i sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y broses DARDR nodi sail gyfreithiol wahanol sy'n briodol i'w hamgylchiadau. Mae sefydliadau'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfynu ar y sail gyfreithiol sy'n berthnasol i'w gweithgareddau prosesu.

13.5 Wrth brosesu neu rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â pherson ymadawedig, dylai cyrff perthnasol ystyried yr effaith bosibl ar drydydd partïon byw a grybwyllir yn y data (e.e. perthnasau, gweithwyr proffesiynol neu'r cyflawnwr honedig). Lle gallai datgelu achosi niwed diangen i'r trydydd parti, dylid mynegi a chyfiawnhau'n glir y budd cyhoeddus o rannu'r wybodaeth at ddibenion DARDR.

Data Categori Arbennig

13.6 Mae Erthygl 9 o'r GDPR yn gymwys pan fo'r DARDR yn cynnwys prosesu data categori arbennig. Mae hyn yn ymwneud â data personol sensitif sydd angen mwy o amddiffyniad, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd, tarddiad hiliol ac ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, bywyd rhywiol person, neu gyfeiriadedd rhywiol.

13.7 Mae'r amod ynghylch budd y cyhoedd sylweddol (Erthygl 9(2)(g)) yn berthnasol i DARDRs ar gyfer prosesu neu rannu data categori arbennig. Gellir dibynnu ar Erthygl 9(2)(g) pan fo'r prosesu yn angenrheidiol am resymau o fudd y cyhoedd sylweddol ac un o'r amodau yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018 yn cael ei fodloni. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall amodau perthnasol gynnwys prosesu sy'n

angenrheidiol ar gyfer arfer swyddogaeth a roddwyd gan ddeddfiad, diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl, neu amodau budd y cyhoedd sylweddol perthnasol eraill. Mae sefydliadau yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfynu pa amod sy'n gymwys i'w gweithgaredd prosesu.

13.8 Mae Erthygl 4 o'r GDPR ac adran 3 o'r DPA yn diffinio 'prosesu' yn eang fel unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) casglu, cofnodi, storio, defnyddio, datgelu (gan gynnwys rhannu), golygu (i guddio gwybodaeth), cyfyngu neu ddinistrio data personol.

13.9 Nid yw gwybodaeth sy'n ymwneud yn unig â pherson ymadawedig yn cyfrif fel data personol at ddibenion y DPA na'r GDPR, sy'n gymwys i unigolion byw yn unig. Fodd bynnag, gall gwybodaeth o'r fath barhau i godi materion cyfrinachedd, dyletswyddau cyfraith gyffredin, neu ofynion crwner, neu effeithio ar hawliau a buddiannau pobl fyw. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd cyfraith gyffredin o gyfrinachedd sy'n gymwys i ddata iechyd a gofal, sy'n parhau ar ôl marwolaeth. Felly, dylid ystyried ceisiadau am wybodaeth bersonol person ymadawedig, neu ddatgelu gwybodaeth o'r fath, yn unol â pholisïau sefydliadol a fframweithiau cyfreithiol perthnasol.

13.10 Rhaid i Gadeiryddion a Phaneli DARDR drin data personol yn unol ag egwyddorion diogelu data, gan gynnwys sicrhau bod prosesu yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw; bod data personol yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol at ddibenion y DARDR; a'i fod yn cael ei gadw dim ond cyhyd ag y bo angen; bod mesurau priodol ar waith ar gyfer diogelwch a lliniaru risg; a bod hawliau a buddiannau unigolion – boed yn fyw neu wedi marw – yr effeithir arnynt gan y brosesu, yn cael eu parchu.

Iechyd a gofal cymdeithasol

13.11 Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn disgwyl i glinigwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol gydweithredu â DARDRs a datgelu'r holl wybodaeth berthnasol am y dioddefwr a, lle bo'n briodol, y sawl sy'n gyfrifol am gam-drin domestig.

13.12 Gall gwybodaeth iechyd a gofal fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin, a all barhau ar ôl marwolaeth yr unigolyn dan sylw. Lle mae deiliaid cofnodion yn ystyried nad yw datgelu gwybodaeth yn llawn yn briodol (e.e. oherwydd rhwymedigaethau cyfrinachedd neu ystyriaethau hawliau dynol eraill), dylent:

- Ystyried a ellir datgelu gwybodaeth berthnasol ar ffurf fwy cyfyngedig neu wedi'i golygu'n briodol, yn unol â diben yr adolygiad.
- Hysbysu Cadeirydd a Phanel DARDR am fodolaeth gwybodaeth berthnasol; a
- Thrafod eu pryderon ynghylch datgelu gyda Chadeirydd a Phanel DARDR. Dylid ceisio dod i gytundeb ar drin cofnodion yn gyfrinachol neu olygu rhannau o gynnwys y cofnodion.

13.13 Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn glir, lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod person yn un a honnir iddo gyflawni cam-drin domestig, neu a gafwyd yn euog o hynny, a/neu a allai fod yn gyfrifol am farwolaeth y dioddefwr (e.e. lladdiad a lladd anghyfreithlon, neu weithredoedd i annog neu gynorthwyo hunanladdiad person arall), y dylid rhoi blaenoriaeth i fudd y cyhoedd o ran dysgu ac atal dros hawl yr unigolyn i gyfrinachedd. Gall diben statudol DARDR – gan gynnwys dysgu gwersi ac atal marwolaethau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig – greu budd cyhoeddus cryf o blaid datgelu gwybodaeth.

14 Bwrdd Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref

14.1 Bydd Bwrdd Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref (‘y Bwrdd SA’) yn adolygu pob DARDR cyn eu cyhoeddi. Pwrpas y Bwrdd SA yw ystyried a yw’r DARDR wedi bodloni’r gofynion a nodir yn y canllawiau statudol ar gyfer DARDR ac ystyried unrhyw fylchau yn y DARDR. Lle nodir bylchau, bydd y Bwrdd SA yn rhoi adborth i’r CSP. Ni ellir cyhoeddi DARDRs heb gymeradwyaeth gan y Bwrdd SA. Gellir gweld Cylch Gorchwyl llawn y Bwrdd SA yn Atodiad I.

14.2 Meini prawf a ddefnyddir gan y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd i benderfynu a yw DARDR yn barod i'w gyhoeddi:

- Mae'r cwmpas a'r Cylch Gorchwyl yn briodol;
- Mae'r DARDR yn defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma;
- Mae'r DARDR yn canolbwyntio ar y dioddefwr;
- Mae barn y teulu, ffrindiau a'r gymuned yn cael eu hadlewyrchu, ac os nad yw hyn yn bosibl, darperir esboniad pam na wnaethant gymryd rhan;
- Mae dadansoddiad cynhwysfawr o'r wybodaeth a gasglwyd;
- Nodir gwersi priodol; a
- Mae'r DARDR yn cydymffurfio â'r templed a'r canllawiau.

14.3 Pan na chaiff y meini prawf hyn eu bodloni, gall y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd ofyn i DARDR gael ei ailgyflwyno ar gyfer ail adolygiad cyn y gellir ei gyhoeddi. Pan fydd y meini prawf yn cael eu bodloni ond bod y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd yn nodi meysydd i'w gwella, disgwylir i CSPs ymgorffori'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt cyn cyhoeddi.

14.4 Cadeirir y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd gan y Swyddfa Gartref ac mae'n cynnwys aelodau o asiantaethau statudol ac arbenigwyr ym maes cam-drin domestig sydd wedi'u penodi drwy broses benodiadau cyhoeddus agored, er mwyn sicrhau bod adroddiadau'n cael eu hadolygu a bod adborth yn cael ei ddarparu'n amserol. Mae'r Bwrdd Sicrwydd Ansawdd yn cyfarfod bob mis i drafod DARDRs ac unrhyw Adolygiadau Cwmpasu sydd wedi'u cyflwyno i'r Swyddfa Gartref lle mae'r CSP yn argymell na ddylid comisiynu DARDR.

14.5 Gellir dod o hyd i wybodaeth am aelodaeth bresennol y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd yma: Penodiadau cyhoeddus i'r bwrdd sicrhau ansawdd DHR - GOV.UK.

14.6 Fel rhan o'r SUSR, mae'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru yn treialu proses sy'n dileu'r gofyniad i gyflwyno SUSRs wedi'u cwblhau i'r Bwrdd Sicrwydd Ansawdd. Yn hytrach, bydd yr SUSRs hyn yn destun gwiriadau ansawdd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod.

14a. Penderfyniadau i beidio â chynnal DARDR

14.7 Pan fydd CSP yn cynnig peidio â chynnal DARDR (neu SUSR yng Nghymru), bydd y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd yn ystyried a yw'r achos yn bodloni'r meini prawf yn unol â Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 ac yn adolygu'r rhesymeg a ddarparwyd yn yr Adolygiad Cwmpasu.

14.8 Yna, bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd yn rhannu penderfyniad y Bwrdd â'r CSP. Os bydd y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd yn argymell y dylid comisiynu DARDR ac os bydd y CSP yn parhau i gynnal y farn na ddylid gwneud hynny, caiff y penderfyniad ei drosglwyddo i'r Ysgrifennydd Cartref; gall yr Ysgrifennydd Cartref ddewis cyfarwyddo'r CSP i gynnal DARDR, gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael o dan Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004.

14.9 Pan fydd penderfyniad i beidio â chynnal DARDR wedi'i gadarnhau gan y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd, bydd CSPs yn gyfrifol am rannu unrhyw wersi a ddysgwyd o'r Adolygiad Cwmpasu.

15 Cyhoeddi

15.1 Unwaith y derbynnir cymeradwyaeth i gyhoeddi gan y Bwrdd Sicrhau Ansawdd, dylid rhannu copi terfynol y DARDR â'r teulu a'r ffrindiau. Yna, rhaid ei anfon at y Swyddfa Gartref, y Comisiynydd Cam-drin Domestig a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC) perthnasol (neu'r Maer neu'r Bwrdd Heddlu a Throseddu perthnasol o fis Mai 2028), a chaiff ei gyhoeddi yn Llyfrgell DARDR.

15.2 Gofynion cyhoeddi ar gyfer Llyfrgell DARDR yw:

- Dylid trosi'r DARDR yn un ddogfen PDF, ei wneud yn llai nag 20 MB o ran maint, a chynnwys yr atodiadau canlynol;
  - Dylid atodi llythyr terfynol yr adborth gan y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd i ddiwedd y DARDR fel atodiad; a
  - Dylid ychwanegu Cynllun Gweithredu'r DARDR at y DARDR fel atodiad. Dylai hwn gynnwys yr holl ddiweddariadau gweithredu a nodi bod y cynllun gweithredu yn ddogfen fyw sy'n agored i newid wrth i ganlyniadau gael eu cyflawni. Gellir dod o hyd i'r templed a'r canllawiau ar gyfer y Cynllun Gweithredu yn Atodiad B.

15.3 Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol barhau i gyhoeddi'r DARDR ar eu gwefannau eu hunain. Rhaid i hon fod yr un fersiwn â'r un a gyhoeddwyd yn Llyfrgell DARDR.

15a. Penderfyniad i beidio â chyhoeddi DARDR

15.4 Bydd nifer bach o adroddiadau DARDR na fyddant yn cael eu cyhoeddi yn eu cyfanrwydd nac o gwbl. Dylai'r argymhelliad i beidio â chyhoeddi fod yn seiliedig ar asesiad risg o ran diogelwch aelodau o deulu a ffrindiau'r dioddefwr, yn ogystal â diogelwch aelodau'r Panel DARDR neu aelodau o'r cyhoedd yn ehangach.

15.5 Dylid cyflwyno pob cais i beidio â chyhoeddi DARDR (yn rhannol neu'n gyfan gwbl) i'r Bwrdd Sicrwydd Ansawdd ynghyd â drafft yr adroddiad DARDR. Dylai'r cyflwyniad hwn nodi beth fydd y CSP yn ei gyhoeddi (e.e. fersiwn wedi'i golygu o'r DARDR a'r cynllun gweithredu) a sut y bydd y CSP yn rhannu gwersi yn lleol gyda gweithwyr proffesiynol a'r gymuned. Bydd y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd yn adolygu'r cais ac yn rhannu adborth ar y penderfyniad ynghylch cyhoeddi a'r cynlluniau gyda'r CSP. Dylid ymgynghori hefyd â'r teulu a ffrindiau ynghylch y cynnig i beidio â chyhoeddi'r DARDR.

15b. Diwygio DARDR a gyhoeddwyd

15.6 Mae'n bosibl y daw gwybodaeth bellach i'r amlwg ar ôl cyhoeddi DARDR, sy'n berthnasol i'r canfyddiadau. Yn yr achosion hyn, cyfrifoldeb y CSP yw penderfynu a oes angen diweddaru'r DARDR, ar ôl ymgynghori â'r teulu. Os bydd y CSP yn penderfynu diweddaru'r DARDR, rhaid iddynt hysbysu'r Swyddfa Gartref i dynnu'r DARDR o Lyfrgell DARDR. Rhaid nodi unrhyw ddiwygiadau ac ychwanegiadau at y DARDR yn glir yn y ddogfen. Mewn rhai amgylchiadau, gall y newid fod yn fach iawn; felly, gall y Swyddfa Gartref gytuno y gellir diweddaru DARDR heb fynd yn ôl at y Bwrdd SA, ar yr amod bod y diwygiadau wedi'u nodi'n glir a bod nodyn yn cael ei wneud nad yw'r Bwrdd Sicrwydd Ansawdd wedi'i weld.

16 Cynnal DARDR yng Nghymru: Yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR)

Beth yw Adolygiad Diogelu Unedig Sengl? (SUSR)?

16.1 Sefydlwyd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) yng Nghymru ym mis Hydref 2024. Cynhelir SUSR pan fydd rhywun wedi profi cam-drin neu esgeulustod ac wedi dioddef niwed sylweddol neu wedi marw o ganlyniad i hynny, a phan ystyrir bod modd dysgu gwersi. Mae'n hanfodol bod sefydliadau ac asiantaethau sy'n gweithio yng Nghymru, ac ar draws Cymru a Lloegr, yn dilyn y Canllawiau Statudol SUSR.

16.2 Mae'r dull gweithredu yn sicrhau bod partneriaid a sefydliadau yn cydweithio ar draws disgyblaethau a threfniadau partneriaeth yng Nghymru, er mwyn rhannu gwersi ac atal niwed. Mae sefydliadau fel Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Heddluoedd Cymru (Prif Gwnstablau a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) a'r trydydd sector yn cydweithio drwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwneir hyn i sicrhau bod gwersi (unigol a thematig) yn cael eu rhannu'n effeithiol a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn sgil hynny, er mwyn diogelu pobl a chymunedau rhag niwed.

16.3 Fe wnaeth Deddf Llywodraeth Cymru 1998[41] (GoWA 1998) ddarparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau gweithredol o Weinidogion Llywodraeth y DU i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru bellach). O dan GoWA 2006[42],trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru. Bellach, mae Gweinidogion Cymru yn arfer y rhan fwyaf o'r pwerau gweithredol a deddfwriaethol israddol mewn perthynas â llywodraeth leol, waeth a yw'r pwerau hynny wedi'u rhoi gan Ddeddf Senedd Cymru neu gan Ddeddf Senedd y DU. Mae Adran 108A, ac Atodlenni 7A a 7B, o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn pennu sail cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i wneud deddfwriaeth sylfaenol. Mae Atodlen 7A yn nodi'r meysydd polisi y gall Senedd San Steffan yn unig ddeddfu yn eu cylch. Mae unrhyw faes nad yw wedi'i restru yn Atodlen 7A o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; mae Atodlen 7B yn cynnwys cyfyngiadau cyffredinol ar y ffordd y gall y Senedd arfer ei chymhwysedd deddfwriaethol.

[41] Deddf Llywodraeth Cymru 1998
[42] Deddf Llywodraeth Cymru 2006

16.4 Mae gwasanaethau megis addysg, iechyd, tai, llywodraeth leol, lles cymdeithasol a Gwasanaethau Tân ac Achub o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Felly, rhaid i bob adolygiad a gynhelir yng Nghymru fod yn gydnaws â'r trefniadau datganoli a'r prosesau perthnasol a sefydlwyd yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu hymgorffori mewn polisïau a phrosesau, lle bo modd, dylid hysbysu'r Gweinidogion Cymreig perthnasol am argymhellion adolygu sy'n ymwneud â'u portffolios polisi.

Diben Cyffredinol yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

16.5 Pwrpas yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yw darparu mecanwaith unigol a chymesur ar gyfer adolygu'r digwyddiadau mwyaf difrifol yng Nghymru. Pan fodlonir un neu ragor o feini prawf adolygu, bydd proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn osgoi'r angen i gynnal cyfres o adolygiadau niferus ar gyfer un digwyddiad. Mae'r rhain yn cynnwys Adolygiadau Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig, Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Lladdiadau sy'n Gysylltiedig ag Iechyd Meddwl.

16.6 Mae'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl wedi'i chreu i:

- cyflwyno un adolygiad yn hytrach nag adolygiadau lluosog mewn perthynas ag achos (neu achosion);
- creu dull symlach ond cryno o gynnal adolygiadau sy'n lleihau trawma i deuluoedd ac yn sicrhau bod y dioddefwr/teulu yr effeithiwyd arno wrth wraidd y broses adolygu;
- mabwysiadu dull "un gwasanaeth cyhoeddus" fel nad yw dioddefwyr a theuluoedd yn cael eu gadael i geisio deall gwaith gwahanol broffesiynau neu asiantaethau;
- dileu dyblygu ymdrech er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau a chyflawni'r gwerth gorau;
- cynhyrchu Adroddiad Adolygiad sy'n canolbwyntio ar wella darpariaeth gwasanaethau, ynghyd â Chynllun Gweithredu clir a fydd yn cael ei ddefnyddio gan y Ganolfan Gydlynu Adolygiadau Diogelu Unedig, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a grwpiau perthnasol eraill i sicrhau bod argymhellion yn cael eu gweithredu; a
- galluogi rhannu gwybodaeth, argymhellion a gwersi thematig er mwyn diogelu cenedlaethau'r dyfodol, gan ddefnyddio Cronfa Ddata Diogelu Cymru i wella arferion ac atal niwed yn y dyfodol.

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer DARDRs a gynhelir yng Nghymru?

16.7 Mae'r diffiniad a'r meini prawf ar gyfer DARDRs wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau Statudol SUSR. Felly, os yw'r digwyddiad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer DARDR yng Nghymru, rhaid cychwyn y broses SUSR. Dylid nodi bod camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i sicrhau bod gofynion deddfwriaethol DARDR yn cael eu bodloni ar gyfer adolygiadau yng Nghymru. Nodir y rhain ym mhroses SUSR ac maent yn cynnwys cyflwyno'r adolygiad terfynol i Fwrdd Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref ac i Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig. Mae'r dull hwn yn sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau diogelu Cymru a rhwymedigaethau statudol y DU o ran adolygiadau cam-drin domestig, gan gynnal fframwaith adolygu unedig, sengl ar yr un pryd.

17 Cwynion

17.1 Dylid cyfeirio cwynion ynghylch DARDR at y CSP neu'r awdurdod lleol perthnasol sy'n goruchwylio'r adolygiad.

Adran 3: Gwneud i Ddysgu Gyfrif – Atal Marwolaethau yn y Dyfodol

18 Goruchwylio a gweithredu dysgu ar lefel genedlaethol a lleol

18.1 Mae cynlluniau gweithredu ac argymhellion yn rhan hanfodol o'r broses DARDR, ac mae'n hanfodol bod digon o ffocws a sylw yn cael ei roi i'w datblygiad, eu hansawdd a'u gweithrediad i sicrhau bod dysgu yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn arwain at newid pendant i wella ymatebion i gam-drin domestig a lleihau'r risg o gam-drin a llofruddiaeth bellach.

18.2 Mae DARDRs wedi'u gwreiddio yng nghymuned y dioddefwr a'r troseddwr. Rhaid i bob DARDR ddod gyda chynllun gweithredu lleol sy'n mynd i'r afael â'r dysgu a nodwyd trwy'r DARDR gyda chamau gweithredu wedi'u targedu, cymesur a mesuradwy. Dylai'r camau gweithredu hyn fod â pherchnogaeth glir, amserlenni a chanlyniadau bwriadedig, a dylent allu gwneud gwahaniaeth amlwg i arfer lleol a threfniadau diogelu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gynlluniau gweithredu yn Atodiad B.

18.3 Yn ogystal â dysgu lleol, gall DARDRs nodi materion sydd angen newid ar lefel genedlaethol. Lle bo'n briodol, gall Cadeiryddion DARDR felly wneud argymhellion cenedlaethol lle mae angen newid polisi ar raddfa genedlaethol.

18.4 Mae gan y Swyddfa Gartref rôl gydlynu mewn perthynas ag argymhellion cenedlaethol. Dylid cyfeirio argymhellion at yr adran lywodraeth berthnasol, ond gall Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth DARDR y Swyddfa Gartref i gael cyngor ar nodi'r cyswllt mwyaf priodol i dderbyn yr argymhelliad. Pan gyfeirir argymhellion yn anghywir at y Swyddfa Gartref, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn hysbysu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac yn darparu gwybodaeth ategol i'w hanfon ochr yn ochr ag argymhellion cenedlaethol, gan egluro pwrpas DARDRs a nodi'r disgwyliadau ar gyfer adrannau'r llywodraeth mewn perthynas â chydnabod ac ymateb i argymhelliad o fewn amserlen briodol. Bydd argymhellion cenedlaethol yn cael eu prosesu cyn eu cyhoeddi lle bo modd er mwyn sicrhau bod dysgu'n cael ei ledaenu cyn gynted â phosibl.

18.5 Yn y dyfodol, bydd argymhellion cenedlaethol yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Gweinidogol ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched i sicrhau bod dysgu o DARDRs yn cael ei oruchwylio a'i ystyried gan Weinidogion arweiniol ym mhob adran.

18.6 Yn ogystal, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflwyno mecanwaith goruchwylio ar gyfer argymhellion a wneir fel rhan o DARDRs. Bydd y mecanwaith yn darparu platfform digidol y gellir cofnodi a monitro argymhellion drwyddo. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgu'n cael ei gasglu a'i drosi'n gamau gweithredu pendant. Bydd rhagor o fanylion am y mecanwaith yn cael eu nodi maes o law.

18.7 Mae'r strwythurau goruchwylio cenedlaethol a lleol ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Gweinidogion Cymru, y DAC, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi'u hamlinellu yng Nghanllawiau Statudol SUSR.

19 Rolau asiantaethau wrth nodi a gweithredu dysgu

19a. Cadeiryddion DARDR

19.1 Fel y nodir yn Adran 5b, mae Cadeirydd y DARDR yn gyfrifol am reoli proses y DARDR a sicrhau bod pob llwybr a allai ddarparu gwersi i atal marwolaethau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn cael eu harchwilio. Er enghraifft, ar y cyd â Phanel y DARDR, rhaid i Gadeirydd y DARDR weithio i nodi'r gwersi a ddaw yn sgil dadansoddi'r farwolaeth. Rhaid i Gadeirydd y DARDR ystyried pa gamau gweithredu a fydd yn arwain at ganlyniadau mesuradwy a fydd yn gwella diogelu dioddefwyr a'u plant, yn ogystal â rheoli risg yn ymwneud â'r troseddwyr. Dylai'r Cadeirydd roi gwybod i'r CSP yn rheolaidd am y cynnydd trwy gydol y broses adolygu.

19.2 Dylai'r Cadeirydd ddarparu cymorth i'r CSP lle bo angen wrth iddynt ddatblygu'r cynllun gweithredu. Rhaid i Gynllun Gweithredu'r DARDR adlewyrchu unrhyw fylchau a nodwyd yn ystod y DARDR, a dylai geisio rhoi mesurau ar waith i leihau'r risg y bydd trasiedi arall yn digwydd o dan amgylchiadau tebyg.

19.3 I gael rhagor o fanylion am gynnal a chynhyrchu DARDR, cyfeiriwch at Adran 6: ‘Cynnal yr Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig’ ac Adran 7: ‘Llunio'r Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig’.

19b. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

19.4 Mae gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gyfrifoldeb cyffredinol am y DARDR a chreu a gweithredu'r cynllun gweithredu. Wrth i'r cynllun gweithredu gael ei ddatblygu, dylai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gydweithio â Chadeirydd y DARDR a'r Panel DARDR lleol i ymgysylltu a gweithio gydag asiantaethau lleol y mae camau gweithredu wedi'u nodi ar eu cyfer. Dylai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sicrhau bod y camau gweithredu a ddatblygwyd yn briodol, gyda pherchennog wedi'i nodi a fydd yn gyfrifol o fewn y sefydliad. Er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu yn cael eu gweithredu mewn modd amserol ac yn gweithio i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, dylai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ddatblygu strwythur llywodraethu wrth weithio gyda phartneriaid, er mwyn sicrhau cyflawniad effeithiol.

19.5 Rhaid i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ymgysylltu â rhanddeiliaid plismona perthnasol, fel Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu lleol, i ystyried dulliau a llywodraethu ar gyfer cyflawni'r cynllun gweithredu drafft. Gall hyn gynorthwyo i nodi lle byddai cymhwyso ehangach y cynllun gweithredu yn fuddiol; cynnull asiantaethau i nodi sut y dylid lledaenu'r cynllun a'r argymhellion yn ehangach; a nodi adnoddau i gynorthwyo gyda chyflawni'r cynllun gweithredu lle bo'n briodol. Gellir defnyddio strwythurau llywodraethu lleol sy'n bodoli eisoes i ddatblygu mewnwelediad i sut mae camau gweithredu ac argymhellion DARDR yn cael eu cyflawni i gyflawni newid. Bydd strwythurau sydd ar waith i atal a lleihau troseddu yn amrywio'n lleol. Gall enghreifftiau gynnwys partneriaethau aml-asiantaeth fel Byrddau Partneriaeth Cam-drin Domestig, Byrddau Gofal Integredig, byrddau Iechyd a Llesiant, neu fod yn gydweithrediad o sawl fforwm partneriaeth gwahanol.

19.6 Dylai'r CSP ledaenu gwersi o'r DARDR i weithwyr proffesiynol lleol, er enghraifft trwy ddigwyddiad dysgu. Gellir rhannu dysgu cynnar hefyd tra bod y DARDR yn dal i fynd

rhagddo i gynorthwyo gwelliant parhaus i ddarparu gwasanaethau. Dylid cynnal digwyddiad dysgu ar ôl i'r DARDR gael ei gyhoeddi i rannu'r cynllun gweithredu terfynol gyda gweithwyr proffesiynol lleol, asiantaethau a Byrddau Partneriaeth Cam-drin Domestig. Bydd hyn yn cynnal momentwm ar draws asiantaethau i sicrhau bod newid ystyrlon wedi'i ymgorffori yn dilyn y farwolaeth. Mae'n arfer da cynnwys y Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Chomisiynydd Cam-drin Domestig mewn digwyddiadau dysgu ar ôl cyhoeddi i gynyddu'r cyfle ar gyfer dysgu trawsffiniol.

19c. Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

19.7 Cyflwynwyd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs) yng Nghymru a Lloegr yn 2012 gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Maent yn gyfrifol am bennu amcanion lleol ar gyfer plismona a throseddu yn eu hardal, ac am ddal y Prif Gwnstabl yn atebol am redeg yr heddlu. Mae PCCs hefyd yn eiriolwyr lleol dros ddioddefwyr ac yn gyfrifol am oruchwylio sut mae'r system cyfiawnder troseddol yn lleol yn diwallu anghenion dioddefwyr, ac am gomisiynu gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr a thystion troseddau. Mewn rhai ardaloedd, cyflawnir swyddogaethau'r PCC gan Faer Awdurdod Strategol, ac mae rhai hefyd yn gyfrifol am lywodraethu'r gwasanaeth tân. Mae PCCs yn gweithio mewn partneriaeth ar draws amrywiaeth o asiantaethau ar lefelau lleol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau dull unedig o atal a lleihau troseddu.

19.8 Yng nghanol proses DARDR, mae gan PCCs rôl allweddol wrth ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd, gwneud gwelliannau a chodi pryderon o fewn eu hardaloedd plismona.

19.9 Dylai PCCs fod yn ymwybodol o ganfyddiadau DARDR a chymryd rhan yn y goruchwyliaeth strategol o DARDRs – fel y nodir isod – ar draws eu hardaloedd er mwyn cefnogi rhannu gwybodaeth. Oherwydd y gwahaniaethau o ran strwythur, maint a swyddogaeth PCCs, bydd y mecanweithiau a'r strwythurau y mae'r PCC yn eu mabwysiadu ar gyfer y goruchwyliaeth hon o DARDRs yn amrywio. Rhaid i'r CSP sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n weithredol â'u PCC lleol er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig; gellir cyflawni hyn drwy strwythurau a ffyrdd o weithio presennol.

19.10 Wrth weithio gyda CSPs, gall PCCs helpu i ddod â phartneriaid ynghyd a darparu cyngor strategol os oes angen eu cymorth ar y CSP wrth ddatblygu neu gyflawni'r cynlluniau gweithredu.

19.11 Yn dilyn cyhoeddi'r cynllun gweithredu, dylai'r PCC ystyried mynychu digwyddiadau rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â CSPs i helpu i ledaenu'r gwersi a ddysgwyd ar draws eu hardal blismona a'r partneriaid perthnasol.

19.12 Dylai'r PCC ystyried canfyddiadau o nifer o DARDRs er mwyn tynnu gwersi thematig a chefnogi rhannu gwybodaeth yn eu hardaloedd plismona perthnasol.

19.13 Mae Papur Gwyn Diwygio'r Heddlu, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026, yn nodi cynlluniau'r llywodraeth i ddiwygio trefniadau llywodraethu plismona lleol ac, ym mis Mai 2028, i drosglwyddo swyddogaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (PCC) i Faer Awdurdod Strategol neu arweinwyr cyngor etholedig, drwy Fyrddau Plismona a Throseddu. Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio'n agos ar draws y llywodraeth ac ochr

yn ochr â rhanddeiliaid i ddeall goblygiadau'r diwygiadau hyn ar gyfer y rôl a ddisgrifir uchod, ac i benderfynu sut y dylai weithredu o dan y trefniadau llywodraethu yn y dyfodol.

19d. Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

19.14 Sefydlwyd rôl y Comisiynydd Cam-drin Domestig (DAC) o dan Ran 2 Deddf Cam-drin Domestig 2021. Rôl y Comisiynydd yw darparu arweinyddiaeth strategol a goruchwyliaeth mewn perthynas â cham-drin domestig ac annog arferion effeithiol ar draws asiantaethau statudol a'r llywodraeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r DAC yn annibynnol ar y llywodraeth. O dan adran 15(3) Deddf Cam-drin Domestig 2021, mae gan awdurdodau penodedig – gan gynnwys adrannau'r llywodraeth a chyrff eraill – ddyletswydd statudol i gydweithio â'r DAC ac ymateb i argymhellion y Comisiynydd. Swyddogaethau statudol y Comisiynydd Cam-drin Domestig, a nodir yn adran 7, yw annog arferion da mewn perthynas â:

- atal cam-drin domestig;
- atal, canfod, ymchwilio i a herlyn troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig;
- nodi pobl sy'n cyflawni cam-drin domestig, dioddefwyr cam-drin domestig a phlant yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig; a
- darparu amddiffyniad a chymorth i bobl yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig.

19.15 Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, mae adran 8A(4) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson neu gorff sy'n sefydlu adolygiad marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig anfon copi o unrhyw adroddiad sy'n nodi casgliadau'r adolygiad at y Comisiynydd Cam-drin Domestig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gwblhau.

19.16 Fel yr eiriolwr annibynnol dros ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, mae rôl y Comisiynydd o fewn DARDRs yn canolbwyntio ar hyrwyddo arfer gorau ac atebolrwydd ar lefel genedlaethol ar ystod o faterion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

19e. Y Swyddfa Gartref

19.17 Y Swyddfa Gartref yw adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am bolisi cyffredinol sy'n ymwneud â DARDRs. Mae hyn yn cynnwys:

- cynnal a diweddaru'r Canllawiau Statudol sy'n sail i DARDRs;
- goruchwylio'r broses sicrhau ansawdd a darparu swyddogaeth ysgrifenyddiaeth i gefnogi'r Bwrdd SA wrth gyflawni ei gylch gwaith; a
- rheoli Llyfrgell DARDR.

19.18 Fel y nodir uchod, bydd y Swyddfa Gartref yn darparu cymorth i adrannau'r llywodraeth i hwyluso dull sy'n ystyried y system gyfan wrth weithredu argymhellion cenedlaethol. Gwneir hyn drwy'r Bwrdd rhyng-weinidogol ar VAWG, sy'n cael ei gadeirio gan Weinidogion y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

19f. Yr Awdurdod Diogelu Plant

19.19 Mae'r Llywodraeth bellach wedi cyhoeddi cynlluniau i sefydlu'r Awdurdod Diogelu Plant (CPA) i fynd i'r afael â heriau hirhoedlog yn y system amddiffyn plant. Cyhoeddwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2026. Mae hyn yn ceisio mynd i'r afael â darnio, diffyg goruchwyliaeth genedlaethol, rhannu a gwreiddio arfer da anghyson a methiant i sicrhau bod dysgu o ddigwyddiadau yn arwain at welliant cynaliadwy. Bydd y Swyddfa Gartref yn parhau i weithio gyda'r Adran Addysg ar ddyluniad y CPA o ystyried y cyfleoedd y mae'n eu cyflwyno i ddeall y gyrwyr y tu ôl i niwed a'r dysgu y gellir ei weithredu i greu newid parhaol.

Pecyn Cymorth DARDR

Atodiad A: Templed DARDR

	TUDALEN DEITL DARDR • Enw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol • Ffugenw'r dioddefwr a mis a blwyddyn y farwolaeth • Enw'r awdur • Dyddiad cyhoeddi
1	**TUDALEN RHESTR O GYNNWYS**
2	PORTREAD YSGRIFENEDIG O DDIODDEFWR Caiff teulu a ffrindiau gyfle i ysgrifennu portread ysgrifenedig o'r dioddefwr. Os yw teulu a ffrindiau'r dioddefwr wedi penderfynu peidio ag ysgrifennu eu portread ysgrifenedig eu hunain, gall Cadeirydd DARDR amlinellu'r hyn y maent wedi'i ddysgu am bwy oedd y dioddefwr. *Mae Portread* Ysgrifenedig *yn 'ddisgrifiad o rywun fel person (e.e. eu personoliaeth, yr hyn sy'n eu plesio a'r hyn nad yw'n eu plesio), eu hanes (e.e. dros gwrs eu bywyd neu'n fwy diweddar) yn ogystal â'u hanghenion neu eu profiadau'.*
3	CADEIRYDD DARDR + CYDYMDEIMLADAU CSP
4	DATGANIAD CYFRINACHEDD AC ANHYSBYSRWYDD Dylid cynnwys y ffugenw(au) y cytunwyd arnynt gyda'r teulu ac a ddefnyddiwyd yn y DARDR er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolyn/unigolion dan sylw. Anogir defnyddio enwau yn hytrach na llythrennau, gan fod hynny'n rhoi naws fwy dynol i'r broses. Dylid cynnwys cadarnhad o'r ymdrechion a wnaed i ddiogelu preifatrwydd y rhai sy'n rhan o'r adolygiad. Os yw'n berthnasol, dylid cynnwys datganiad ynghylch defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (e.e. ChatGPT, Co-Pilot).
5	CRYNODEB GWEITHREDOL Crynodeb lefel uchel o'r farwolaeth, y dadansoddiad a'r gwersi a ddysgwyd. Dylai hwn fod rhwng 2 a 4 tudalen o hyd, yn fras.
6	CYLCH GORCHWYL Mae rhestr anghyflawn o ffactorau y dylai Cadeirydd y DARDR eu hystyried wrth ddatblygu cwmpas y DARDR yn cynnwys y cyfnod sy'n cael ei adolygu; asiantaethau a fu'n rhan o'r broses; penderfyniad ynghylch ymglymiad MARAC; telerau ymgysylltu â theulu a ffrindiau; sylw ac ymgysylltiad y cyhoedd a'r cyfryngau; cydraddoldeb ac amrywiaeth; adolygiadau eraill i'r farwolaeth; ac a fu adolygiadau DARDR eraill yn yr un ardal awdurdod lleol ac unrhyw wersi perthnasol y maent yn eu cynnig.
7	GWYBODAETH GEFNDIR (Y FFEITHIAU) • Crynodeb o'r farwolaeth (beth ddigwyddodd mewn gwirionedd a sut y cafodd y dioddefwr ei ladd/sut y bu farw). • Manylion am yr archwiliad post-mortem a'r cwest a/neu ymchwiliad y Crwner, os ydynt eisoes wedi'u cynnal. Nodwch achos y farwolaeth.

	• Aelodau o'r teulu a'r aelwyd. Pwy arall oedd yn byw yn y cyfeiriad ac, os oedd plant yn byw yno, beth oedd eu hoedran ar y pryd (er mwyn diogelu preifatrwydd, ni ddylid nodi rhyw y plant). Lle bo'r wybodaeth ar gael, dylid darparu manylion am y math o dai. • Pa mor hir yr oedd y dioddefwr wedi bod yn byw gyda'r cyflawnwr/cyflawnwyr. Os oeddent yn bartneriaid neu gyn-bartneriaid, pa mor hir yr oeddent wedi bod gyda'i gilydd fel cwpl. • Manylion am unrhyw gyhuddiadau troseddol, gan gynnwys dyddiad a chanlyniad y treial, a'r ddedfryd a roddwyd. • Os yw'r adolygiad yn ymwneud â dioddefwr a fu farw drwy hunanladdiad, nodwch ar ba sail y penderfynwyd bod yr achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal yr adolygiad.
8	TROSOLWG YR ASIANTAETHAU Trosolwg sy'n crynhoi'r wybodaeth oedd gan yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol dan sylw ynglŷn â'r dioddefwr, y cyflawnwr a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys manylion ynghylch a fu unrhyw gyswllt â'r dioddefwr a'r cyflawnwr, yn ogystal ag unrhyw ffeithiau neu wybodaeth berthnasol arall amdanynt, er enghraifft asesiadau seicolegol.
9	CRONOLEG GYFUNOL **Rhaid cael cronoleg gyfunol sy'n cwmpasu'r holl asiantaethau (yn hytrach nag amlinellu cyswllt pob asiantaeth yn eu tro).** Os yw strwythur y teulu yn helaeth neu'n gymhleth, ystyriwch gynnwys genogram dienw ar ddechrau'r gronoleg. Esboniwch gefndir y dioddefwr a'r cyflawnwr cyn y cyfnodau sy'n destun yr adolygiad (fel y nodir yn y cylch gorchwyl) er mwyn rhoi cyd-destun i'w stori. Darparwch gronoleg naratif gyfunol sy'n olrhain digwyddiadau allweddol, cyswllt neu ymglymiad perthnasol â'r dioddefwr, y cyflawnwr a'u teuluoedd gan asiantaethau, gweithwyr proffesiynol ac eraill sydd wedi cyfrannu at broses DARDR. Nodwch amser a dyddiad pob achlysur pan welwyd y dioddefwr, y cyflawnwr neu'r plentyn/plant, ynghyd â'r safbwyntiau a'r dymuniadau a geisiwyd neu a fynegwyd.
10	DADANSODDIAD Dylai'r rhan hon o'r trosolwg archwilio sut a pham y digwyddodd digwyddiadau, gwybodaeth a rannwyd, y penderfyniadau a wnaed, a'r camau a gymerwyd neu na chymerwyd. Gall ystyried a allai penderfyniadau neu gamau gweithredu gwahanol fod wedi arwain at gwrs gwahanol o ddigwyddiadau. Dylai'r adran dadansoddi fynd i'r afael â'r cylch gorchwyl a'r prif linellau ymholi ynddynt. Dyma hefyd lle dylid tynnu sylw at unrhyw enghreifftiau o arfer da. Dylid manylu ar yr ymchwil berthnasol sy'n sail i'r dadansoddiad. Lle mae gwybodaeth eisoes wedi'i darparu, dylai'r dadansoddiad gyfeirio at hyn yn hytrach na'i hailadrodd. Ewch i'r afael â phob un o'r naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac egluro a ydynt yn berthnasol i'r DARDR. Cynhwyswch archwilio rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau yn ogystal ag ystyriaeth ehangach ynghylch a effeithiwyd ar ddarparu gwasanaethau. Gwendidau ychwanegol a allai fod wedi dylanwadu ar fynediad at wasanaethau e.e. lleoliad gwledig. Gwybodaeth dadansoddi sydd ei hangen yn y DARDR ac yn y casgliad data: **Ffactorau Gwaethygol** yn y farwolaeth gan gynnwys: • Gwahanu • Ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol • Stelcio (corfforol / digidol) • Priodas dan orfod • Cam-drin ar sail ‘anrhydedd’

	• Cam-drin ar sail ffydd • Cam-drin rhywiol • Cam-drin seicolegol neu emosiynol • Cam-drin corfforol • Cam-drin economaidd • Tagu heb arwain at farwolaeth • Caethwasiaeth fodern • Cam-drin statws mewnfudo'r dioddefwr **Materion iechyd meddwl** a nodwyd ar gyfer y dioddefwr / y cyflawnwr / y plant (rhai sydd wedi cael diagnosis a rhai hebddo) **Gwendidau** a brofwyd gan y dioddefwr a'r cyflawnwr: • Profi camddefnydd o alcohol • Profi camddefnydd o sylweddau eraill • Profi problemau tai • Anabledd corfforol • Anableddau dysgu (gan gynnwys pob math o niwro-amrywiaeth, boed wedi'i ddiagnosio ai peidio) • Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu • Beichiogrwydd neu famolaeth • Iechyd meddwl gwael • Ymwneud â'r diwydiant rhyw • Statws mewnfudo ansicr • Statws economaidd-gymdeithasol **Cam-drin blaenorol** • A oedd y dioddefwr wedi dioddef unrhyw fath o gam-drin yn flaenorol? • A oedd y cyflawnwr yn hysbys yn flaenorol fel rhywun sy'n cyflawni cam-drin domestig? • A yw'r dioddefwr/cyflawnwr wedi profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)? • Ystyriwch a oedd y dioddefwr yn hysbys yn flaenorol fel rhywun sy'n cyflawni cam-drin domestig. • Ystyriwch a oedd y cyflawnwr wedi cael unrhyw gysylltiad â gwasanaethau fel dioddefwr **Cyswllt ag asiantaethau sy'n ymwneud â'r dioddefwr a'r cyflawnwr** • Unrhyw gyswllt hysbys â'r heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau cam-drin domestig neu Wasanaethau Cymdeithasol Plant • A oedd y dioddefwr wedi cael ei atgyfeirio i MARAC ar unrhyw adeg • A oedd y dioddefwr/cyflawnwr wedi cael cyswllt â gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a/neu wasanaethau iechyd meddwl • Unrhyw ryngweithio/ymgysylltu hysbys â'r awdurdodau mewnfudo • Ystyriwch a oedd y dioddefwr yn hysbys yn flaenorol fel cyflawnwr cam-drin domestig • Ystyriwch a oedd y cyflawnwr wedi cael unrhyw gyswllt â gwasanaethau fel dioddefwr **Plant** • A oedd plant yn bresennol pan ddigwyddodd y farwolaeth? • A oedd unrhyw blant yn destun gweithdrefnau diogelu plant? • A oedd unrhyw blant yn hysbys i wasanaethau gofal cymdeithasol plant? • Os atebwyd 'oedd' i'r uchod, a oedd atgyfeiriadau wedi'u gwneud ac yna eu nodi fel 'dim camau pellach'
11	CASGLIADAU

	Cyflwynwch drosolwg o'r prif faterion a nodwyd, ynghyd â'r casgliadau a dynnwyd ohonynt; bydd y rhain yn ffurfio'r sail ar gyfer manylu ar y gwersi a ddysgwyd yn yr adran nesaf.
12	GWERSI A DDYSGWYD AC ARGYMHELLION Dylai'r rhan hon o'r DARDR grynhoi pa wersi y dylid eu tynnu o'r achos a sut y dylid trosi'r gwersi hynny'n argymhellion ar gyfer gweithredu. Nodwch unrhyw ddysgu cynnar a nodwyd yn ystod y broses DARDR ac a yw hyn eisoes wedi'i weithredu. Dylai argymhellion gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rhai a wnaed mewn Adroddiadau Rheoli Unigol a gallant gynnwys argymhellion o effaith genedlaethol a wnaed ar gyfer cyrff neu sefydliadau lefel genedlaethol. Dylai argymhellion fod â ffocws ac yn benodol, wedi'u cyfyngu o ran amser ac yn weithredadwy. Dylai argymhellion gael eu hysgrifennu'n glir ac mewn iaith syml. Dylid eu cyfeirio at y sefydliad neu'r adran Lywodraeth gywir sy'n gyfrifol am y maes a gwmpesir yn yr argymhelliad er mwyn osgoi oedi neu gamgyfeirio posibl.
	ATODIAD A: GWYBODAETH AM BROSES DARDR
13	AMSERLENNI Dechreuodd y DARDR hwn ar (dyddiad) a daeth i ben ar (dyddiad). Dylid cwblhau DARDRs, lle bo modd, o fewn blwyddyn i'r dyddiad cychwyn. Eglurwch unrhyw resymau dros oedi wrth gwblhau.
14	CYFRANWYR AT Y DARDR • Rhestrwch yr asiantaethau a chyfranwyr eraill at y DARDR, a natur eu cyfraniad, h.y. IMR, adroddiad, neu wybodaeth. • Cadarnhewch annibyniaeth awduron yr IMR a sut maent yn annibynnol.
15	AELODAU'r PANEL DARDR • Rhestrwch yr asiantaethau a rolau aelodau'r panel sy'n rhan o Banel DARDR (peidiwch â chynnwys enwau unigolion, os gwelwch yn dda). • Cynhwyswch nifer y gweithiau y cyfarfu Panel DARDR. • Cadarnhewch annibyniaeth aelodau Panel DARDR. • Rhestrwch ffynonellau cyngor arbenigol mewn achosion lle nad oedd cynrychiolaeth ar Banel DARDR. Er enghraifft, cam-drin economaidd.
16	AWDUR Y DARDR Eglurwch annibyniaeth Cadeirydd y DARDR (a'r awdur, os yw'r rolau'n wahanol) a rhowch fanylion am eu hanes gyrfa a'u profiad perthnasol. Cadarnhewch nad oes gan Gadeirydd/awdur y DARDR unrhyw gysylltiad â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Os ydynt wedi gweithio i unrhyw asiantaeth yn yr ardal yn y gorffennol, nodwch pa mor bell yn ôl y daeth y cyflogaeth hwnnw i ben.
17	ADOLYGIADAU CYFOCHROG Nodwch a gynhaliwyd cwest neu unrhyw adolygiadau neu ymchwiliadau eraill, ac a ddefnyddiwyd y rhain i lywio'r DARDR hwn. Ystyriwch nodi a ystyriwyd cynnal adolygiad cyfochrog neu ar y cyd, a'r rhesymeg dros beidio â chynnal adolygiad o'r fath.
18	ADOLYGIAD CWMPASU

	Atodwch yr Adolygiad Cwmpasu a gwblhawyd ar gyfer y DARDR hwn.

Atodiad B: Templed a Chanllawiau ar gyfer Cynllun Gweithredu

Teitl y DARDR	
TREFNIADAU LLYWODRAETHU	*Amlinellwch drefniadau llywodraethu i oruchwylio gweithrediad cynllun gweithredu DARDR*

ARGYMHELLIAD	LEFEL ARGYMHELLIAD (LLEOL/ RHANBARTHOL/ CENEDLAETHOL)	CAM GWEITHREDU	ASIANTAETH ARWEINIOL	CANLYNIAD Y BYDD GWEITHREDU YN EI GYFLAWNI	ARWEINYDD CYFRIFOL	CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL I GWBLHAU'R CAM GWEITHREDU	DYDDIAD TARGED	RAG CYFFREDINOL	CYNNYDD	DYDDIAD CWBLHAU	A GYFLAWNWYD Y CANLYNIAD?
Argymhelliad		1.1 Cam gweithredu									
		1.2 Cam gweithredu									
		1.3 Cam gweithredu									
		1.4 Cam gweithredu									
Argymhelliad		2.1 Cam gweithredu									
		2.2 Cam gweithredu									
Argymhelliad		3.1 Cam gweithredu									
		3.2 Cam gweithredu									

Canllawiau'r Cynllun Gweithredu

Rhaid i gamau gweithredu fod yn **SMART**:

- **S**pecific/Penodol
- **M**easurable/Mesuradwy
- **A**chievable/Cyflawnadwy
- **R**elevant/Perthnasol
- **T**ime-bound/Cyfyngedig o ran amser

- Rhaid i gamau gweithredu **ganolbwyntio ar ganlyniadau**; mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r cynllun gweithredu fynegi pa newid y gellir ei ddisgwyl o ganlyniad i weithredu'r cam gweithredu. Er enghraifft, os yw'r cam gweithredu a nodwyd yn 'x' yna gallai'r canlyniad fod yn 'y'.

- Rhaid i gamau gweithredu gael **perchennog cyfrifol** wedi'i nodi.

- Fel yr amlinellir yn Ffigur 3 o ganllawiau statudol DARDR, dylai'r CSP gytuno ar bwyntiau yn y dyfodol y byddant yn **diweddaru teulu/ffrindiau ar weithredu'r** Cynllun Gweithredu DARDR.

- Yn ystod datblygiad y cynllun gweithredu, rhaid i Gadeirydd DARDR a Phanel DARDR lleol **ymgysylltu â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu perthnasol** (neu'r Maer neu'r Bwrdd Plismona a Throseddu perthnasol o fis Mai 2028) **i ystyried dulliau a llywodraethu ar gyfer cyflawni'r** cynllun gweithredu.

- Pan gyhoeddir y DARDR terfynol, dylai'r cynllun gweithredu diweddaraf gael ei **ychwanegu fel atodiad i'r DARDR** gyda'r holl ddiweddariadau gweithredu gan nodi bod y cynllun gweithredu yn ddogfen fyw ac yn destun newid wrth i ganlyniadau gael eu cyflawni. Dylai'r CSP gyhoeddi'r cynllun gweithredu ar eu gwefan eu hunain a diweddaru wrth i gynnydd gael ei wneud.

Atodiad C: Templed Adolygiad Cwmpasu

	TUDALEN DEITL ADOLYGIAD CWMPASU • Enw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol • Dynodwr dienw sy'n nodi i ba Adolygiad Cwmpasu y cyfeirir, h.y. ffugenw neu rif • Y dyddiad y cyflwynwyd yr Adolygiad Cwmpasu i'r Swyddfa Gartref • A yw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi comisiynu DARDR, neu a yw'n argymell na ddylid comisiynu DARDR • A yw'r farwolaeth yn achos o laddiad domestig / esgeulustod / hunanladdiad / marwolaeth anesboniadwy / neu a yw'r achos eto i'w benderfynu
1	**Sut y cafodd y CSP ei hysbysu am y farwolaeth hon ac ar ba ddyddiad y digwyddodd hyn?**
2	**Crynodeb o'r digwyddiad angheuol**
3	**Cefndir – beth a ddysgwyd am y dioddefwr a'r cyflawnwr?**
4	**Beth yw'r gwersi cynnar y mae asiantaethau wedi'u nodi yn yr achos hwn?**
5	**Pa gam(au) – ynghyd â chanlyniadau ac amserlenni – a gymerir o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd?**
	Ar y cam hwn, nid oes angen cynllun gweithredu cynhwysfawr. Dim ond camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cytuno ar y cam hwn sydd angen eu cynnwys. Dylid trosglwyddo camau gweithredu a nodwyd yn yr Adolygiad Cwmpasu yn awtomatig i gynllun gweithredu DARDR wrth iddo gael ei ddatblygu.
6	**Os yw'r broses Adolygiad Cwmpasu wedi dod i ben gyda phenderfyniad i beidio â chomisiynu DARDR ar gyfer yr achos hwn, amlinellwch y rhesymeg dros y penderfyniad hwn isod.**
7	**Beth yw barn y teulu/ffrindiau ynghylch a ddylid comisiynu DARDR**
8	**Pa asiantaethau a sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy, neu sydd wedi bod yn rhan o'r Adolygiad Cwmpasu?**
9	**A oes adolygiadau eraill wedi'u cynllunio mewn perthynas â'r farwolaeth hon?**

Atodiad D: Templed Adroddiad Rheoli Annibynnol Template

Nodyn trin: *i'w rannu gyda'r rhai sydd angen y wybodaeth hon at ddibenion cyflawni DARDR*

Enw'r person sy'n destun adolygiad	
Dyddiad Geni	
Dyddiad Marwolaeth	
Teitl swydd a manylion cyswllt y sawl sy'n cwblhau'r IMR hwn (gan gynnwys cadarnhad ynghylch annibyniaeth ar reolaeth llinell yr achos).	

CYFLWYNIAD

Crynodeb ffeithiol/cyd-destunol byr o'r sefyllfa sy'n arwain at y DARDR, gan gynnwys amlinelliad o'r cylch gorchwyl a'r dyddiad cwblhau

MANYLION Y DIODDEFWR, Y CYFLAWNWR A'R TEULU, OS YW'N BERTHNASOL

Enw	Dyddiad geni	Perthynas	Tarddiad ethnig	Cyfeiriad

CRYNODEB O YMGYSYLLTIAD YR ASIANTAETH

- Lluniwch gronoleg gynhwysfawr o ymgysylltiad eich asiantaeth dros y cyfnod a nodir yng nghylch gorchwyl yr adolygiad.
- Nodwch pryd y gwelwyd y dioddefwr/plentyn/teulu/cyflawnwr, gan gynnwys hanes blaenorol lle bo hynny'n berthnasol.
- Nodwch fanylion y gweithwyr proffesiynol o fewn eich asiantaeth a fu'n ymwneud â'r dioddefwr, y teulu neu'r cyflawnwr, a nodwch a gafodd cyfweliad â hwy ai peidio at ddibenion yr Adolygiad Mewnol (IMR) hwn.
- Cynhwyswch wybodaeth am adolygiadau cyfochrog y mae'r asiantaeth yn rhan ohonynt.

DADANSODDIAD O YMGYSYLLTU

- Ystyriwch y digwyddiadau a ddigwyddodd, y penderfyniadau a wnaed, a'r camau a gymerwyd – neu na chymerwyd.
- Aseswch yr arfer yn erbyn canllawiau, polisïau mewnol a deddfwriaeth berthnasol.
- Darparwch fanylion am unrhyw gyd-destun ychwanegol perthnasol.

YMDRIN Â'R CYLCH GWAITH

Ystyriwch ddadansoddiad pellach o ffactorau hollbwysig, nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adrannau uchod.

ARFER EFFEITHIOL, GWERSI A DDYSGWYD AC ARGYMHELLION

Dylai'r argymhellion ganolbwyntio ar brif ganfyddiadau'r IMR a bod yn benodol ynghylch y canlyniad y maent yn anelu ato. Dylai hyn hefyd gynnwys manylion am argymhellion y gweithredwyd arnynt eisoes.

Atodiad E: Templed Adborth DARDR y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd

TEITL Y DARDR	
PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL	
CRYNODEB O'R ACHOS	
DYDDIAD ADOLYGU GAN Y BWRDD SA	
PENDERFYNIAD	
ARFER DA WEDI'I GANMOL	
ADBORTH AR GYFER DARDRs Y DYFODOL	

	ADRAN DARDR	**ADRODDIAD BWRDD SICRWYDD ANSAWDD DARDR (gwelliannau sydd eu hangen cyn cyhoeddi)**
1	Tudalen Deitl	
2	Tudalen Gynnwys	
3	Portread Ysgrifenedig	
4	Cydymdeimladau	
5	Cyfrinachedd ac Anhysbysrwydd	
6	Cylch Gorchwyl	
7	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	

8	Gwybodaeth Gefndirol	
9	Cronoleg Gyfun	
10	Trosolwg	
11	Dadansoddiad	
12	Casgliadau	
13	Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion	
14	Amserlenni	
15	Cynnwys teulu / ffrindiau / y gymuned	
16	Cyfranwyr DARDR	
17	Panel DARDR	
18	Awdur DARDR	
19	Adolygiadau Cyfochrog	
20	Lledaenu	
21	Cynllun Gweithredu	
22	A oes cais wedi bod i atal cyhoeddi?	

	Os 'Oes', nodwch y rheswm dros y cais. A yw'n gymesur ac yn briodol?	
23	Unrhyw sylwadau eraill	

Atodiad F: Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Amlinellir rhwystrau a heriau sy'n wynebu gwahanol gymunedau a nodweddion yn y Canllawiau Statudol ar Gam-drin Domestig. Dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r canllawiau hyn er mwyn deall y cyd-destun i'r dioddefwr.[43]

Nodwedd Warchodedig	Cyffredinrwydd
Oedran	Gall unrhyw un, ar unrhyw oedran, gael ei effeithio gan gamdriniaeth ddomestig. O dan adran 3 o Ddeddf Camdriniaeth Ddomestig 2021, mae plant bellach yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain, pan fyddant yn gweld, yn clywed neu'n profi effeithiau cam-drin domestig, ac yn perthyn naill ai i'r cyflawnwr neu i'r dioddefwr. Fe wnaeth yr Arolwg Troseddau ar gyfer Lloegr a Chymru (CSEW) ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2025[1] ddangos fod cyfran sylweddol uwch o bobl rhwng 16 ac 19 oed (18.2%) a rhwng 20 a 24 oed (12.9%) wedi bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig o ryw fath yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'u cymharu â'r rhai yn y categorïau oedran o 25 oed a hŷn. Roedd y gyfran o bobl a oedd yn ddioddefwyr cam-drin domestig yn y grwpiau oedran 60 i 74 oed (5.3%) a 75 oed a hŷn (3.4%) yn sylweddol is nag ymhlith pobl yn y grwpiau oedran rhwng 16 a 59 oed. Mae data o Fynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref yn dangos mai 49 oed oedd oedran cyfartalog y 352 o ddioddefwyr (yn 16 oed a hŷn) a gofnodwyd rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.[44]
Anabledd	Fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae person yn anabl os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol ‘sylweddol’ a ‘thymor hir’ ar ei allu i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol. Mae pobl anabl yn profi cyfraddau anghymesur o uchel o gam-drin domestig.[45] Dangosodd amcangyfrifon o'r CSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 fod 13.4% o bobl 16 oed a hŷn ag anabledd wedi bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn sylweddol uwch nag ar gyfer pobl heb anabledd (6.7%). Cynhaliwyd dadansoddiad gan Analytics Cambridge a QE Assessments Ltd o 153 o Adolygiadau Lladdiadau Domestig rhwng mis Medi 2022 a mis Hydref 2023. Dangosodd y dadansoddiad hwn fod anabledd corfforol wedi'i nodi fel ffactor bregusrwydd ar gyfer 13% o'r 158 o ddioddefwyr a gofnodwyd. Roedd y dadansoddiad hwn yn cynnwys achosion lle bu farw'r dioddefwr drwy hunanladdiad, a lle roedd hanes hysbys o gam-drin domestig[46].

[43] SYG. Cyffredinrwydd cam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr – Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2025.
[44] SYG. Trosolwg o ddata sy'n ymwneud â cham-drin domestig yng Nghymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2025.
[45] SYG. Cyffredinrwydd cam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2025.
[46] Potter, R. 2024. Dadansoddiad meintiol o adolygiadau llofruddiaethau domestig: Hydref 2022 i Fedi 2023 (hygyrch) - GOV.UK

Ailbennu rhywedd	Amcangyfrifodd yr CSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 fod 19.3% o oedolion trawsryweddol a 7.7% o oedolion cisryweddol wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, ni allwn benderfynu a yw'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol; felly, nid yw'n glir a yw un grŵp mewn mwy o berygl yn ystadegol. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2024, casglodd y *Vulnerability Knowledge and Practice Programme* (VKPP) ddata ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig – gan ddefnyddio diffiniad sy'n ehangach na'r diffiniad statudol o laddiad domestig. O'r 1,012 o ddioddefwyr a gofnodwyd, nodwyd bod tri wedi cael triniaeth ailbennu rhywedd, er bod y nodwedd hon yn 'anhysbys' neu heb ei chofnodi ar gyfer 14% (n=143) o'r dioddefwyr.[47] Mae'n bwysig nodi bod y VKPP yn cynnwys y categorïau canlynol yn ei set ddata ar *laddiadau domestig*: lladdiad gan bartner agos, lladdiad aelod o'r teulu sy'n oedolyn, marwolaeth annisgwyl yn dilyn cam-drin domestig, hunanladdiad honedig dioddefwr yn dilyn cam-drin domestig, marwolaeth plentyn, a marwolaethau a ddosberthir fel 'eraill'. Nid yw'r categorïau hyn yn cyd-fynd yn llwyr â'r diffiniad statudol o laddiad domestig.
Priodas a phartneriaeth sifil	Dangosodd amcangyfrifon CSEW y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025,[48] fod cyfran sylweddol is o bobl 16 oed a hŷn oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil (4.4%) wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'u cymharu â'r rhai oedd yn byw gyda phartner (8.8%), yn sengl (12.2%), wedi gwahanu (22.7%) neu wedi ysgaru (16.3%). Fodd bynnag, gallai statws priodasol fod wedi newid o ganlyniad i'r cam-drin a brofwyd.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Gall beichiogrwydd roi menywod mewn mwy o berygl o ddioddef cam-drin, er bod y data sydd ar gael ynghylch pa mor gyffredin yw cam-drin domestig ymhlith unigolion beichiog yn gyfyngedig. Mae astudiaethau'n awgrymu y gall beichiogrwydd sbarduno cam-drin domestig, ac y gall cam-drin sydd eisoes yn digwydd, waethygu yn ystod beichiogrwydd neu ar ôl rhoi genedigaeth.[49] Mae rhai astudiaethau'n awgrymu bod cymaint â 40-60% o fenywod beichiog yn profi cam-drin yn ystod beichiogrwydd, tra bod eraill yn awgrymu bod nifer yr achosion yn llawer is, yn amrywio rhwng 1% a 20%[50] (yn dibynnu ar y wlad a sut y cyfrifir y gyfradd gyffredinrwydd)[51].
Hil ac Ethnigrwydd	Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth I ben ym mis Mawrth 2025[52], canfuwyd nad oedd y rhan fwyaf o'r gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o gam-drin domestig ar draws gwahanol grwpiau ethnig, yn ôl y CSEW, yn arwyddocaol. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol uwch o bobl

[47]Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer ynghylch Bregusrwydd (VKPP). Lladdiadau Domestig a Hunanladdiadau a Ddrwgdybir o Ddioddefwyr 2020-2024: Adroddiad Blwyddyn 4: 2024.
[48] SYG. Cyffredinrwydd cam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2025.
[49] https://www.nhs.uk/pregnancy/support/domestic-abuse-in-pregnancy/
[50] Bailey B. A. (2010). Trais gan bartner yn ystod beichiogrwydd: cyffredinrwydd, effeithiau, sgrinio a rheoli. *International journal of women's health*, *2*, 183–197.
[51] SafeLives. Adroddiad llawn Cry for Health.pdf (safelives.org.uk)
[52] SYG. Cyffredinrwydd cam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.

	o'r oedran16 oed a hŷn yn y grŵp ethnig Du (11.5%), a brofodd gam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'u cymharu â'r rhai yn y grŵp Asiaidd neu Asiaidd-Prydeinig (6.1%). Yn ôl Mynegai Lladdiadau Domestig y Swyddfa Gartref, rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2024, o'r 352 o ddioddefwyr lladdiadau domestig a gofnodwyd, roedd 74.7% (263 o unigolion) yn wyn, 9.4% (33) yn Ddu, ac roedd 13.9% (49) yn perthyn i grwpiau ethnig eraill.[53]
Crefydd a chred	Gall dioddefwyr sy'n dilyn crefydd neu sydd o gefndiroedd ffydd brofi rhwystrau ychwanegol i dderbyn cymorth neu riportio cam-drin oherwydd problemau ynghylch cael mynediad at gymorth sy'n gysylltiedig â'u hunaniaeth grefyddol a'u grŵp ffydd.[54] Amcangyfrifodd y CSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 fod 8.8% o oedolion heb grefydd, 11.7% o oedolion Bwdhaidd, 7.2% o oedolion Cristnogol, 3.3% o oedolion Hindŵaidd, 5.0% o oedolion Mwslimaidd a 12.9% o oedolion â chrefydd a nodwyd fel 'Arall' wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, ni allwn benderfynu a yw'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol; felly, nid yw'n glir a yw un grŵp neu fwy mewn risg uwch yn ystadegol[55].
Rhyw	Gall dynion a menywod fel ei gilydd brofi cam-drin domestig, ond menywod sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r dioddefwyr. Amcangyfrifodd yr Arolwg Troseddau yn Lloegr a Chymru (CSEW) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 fod 2.2 miliwn o fenywod ac 1.5 miliwn o ddynion, yn 16 oed a hŷn, wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cyfateb i tua 9 allan o bob 100 o fenywod a 7 allan o bob 100 o ddynion. Roedd y dioddefwr yn fenyw mewn 72.1% o'r troseddau yn ymwneud â cham-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025. Yn ôl Mynegai Lladdiadau Domestig y Swyddfa Gartref, rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2024, o'r 352 o ddioddefwyr lladdiadau domestig a gofnodwyd, roedd 69.6% yn fenywod a 30.4% yn ddynion[56]. Mewn 86.1% o'r 352 achos, dyn oedd yr un dan amheuaeth, ac mewn 13.9% menyw oedd yr un dan amheuaeth. Yn achos y rhan fwyaf o laddiadau domestig yn erbyn menywod, partner neu gyn-bartner gwryw oedd yr un dan amheuaeth (72.7%), tra bod yr un dan amheuaeth yn aelod gwryw o'r teulu yn y rhan fwyaf o laddiadau domestig yn erbyn dynion (58.9%).
Cyfeiriadedd Rhywiol	Gall dioddefwyr LHDT gael profiad tebyg o gam-drin domestig i ddioddefwyr heterorywiol, ond gallant hefyd brofi mathau penodol o gam-drin sy'n ymwneud â'u cyfeiriadedd rhywiol. Yn ogystal, gallant

[53] SYG. Trosolwg o ddata sy'n ymwneud â cham-drin domestig yng Nghymru a Lloegr – Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.
[54] Y Swyddfa Gartref. Canllawiau Statudol Deddf Cam-drin Domestig (2021): 2022
[55] SYG. Cyffredinrwydd cam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2025.
[56] SYG. Nodweddion dioddefwyr cam-drin domestig, Lloegr a Chymru - Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data o'r cyhoeddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.

	wynebu rhwystrau mwy i gael mynediad at wasanaethau cymorth priodol.[57] Amcangyfrifodd y CSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 fod 19.9% o oedolion deurywiol ac 18.9% o oedolion a nododd eu rhywioldeb fel 'Arall' wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yr amcangyfrif o'r gyfradd oedd 14.5% ymhlith oedolion a nododd eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd, a 7.2% ymhlith y rhai a nododd eu bod yn heterorywiol. Fodd bynnag, ni allwn benderfynu a yw'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol; felly, nid yw'n glir a yw un grŵp neu fwy mewn risg sy'n ystadegol uwch[58]. Yn ôl data a gasglwyd gan y VKPP rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2024 ynghylch lladdiadau domestig yng Nghymru a Lloegr, nodwyd bod 37 (4%) o'r 1,012 o ddioddefwyr a gofnodwyd yn LHDTC+. Ar gyfer 26% (n=266) o'r dioddefwyr, nodwyd bod y cyfeiriadedd rhywiol yn 'anhysbys' neu ni chafodd ei gofnodi.[59] Mae'n bwysig nodi bod y VKPP yn cynnwys y categorïau canlynol yn ei set ddata o laddiadau domestig: lladdiad gan bartner agos, lladdiad aelod o'r teulu sy'n oedolyn, marwolaeth annisgwyl yn dilyn cam-drin domestig, hunanladdiad honedig dioddefwr yn dilyn cam-drin domestig, marwolaeth plentyn, a marwolaethau a ddosberthir fel 'eraill'. Nid yw'r categorïau hyn yn cyd-fynd yn llwyr â'r diffiniad statudol o laddiad domestig.

[57]Y Swyddfa Gartref. Canllawiau Statudol Deddf Cam-drin Domestig (2021): 2022
[58] SYG. Cyffredinrwydd cam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.
[59] Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer ynghylch Bregusrwydd (VKPP). Lladdiadau Domestig a Hunanladdiadau a Ddrwgdybir o Ddioddefwyr 2020-2024: Adroddiad Blwyddyn 4: 2024.

Atodiad G: Pecyn cymorth ar gyfer cynnwys teulu, ffrindiau, cydweithwyr, cymdogion a'r gymuned ehangach

	Cam gweithredu/Cwestiwn	**Ateb**
1	Beth oedd natur y berthynas rhwng y rhai a oedd yn rhan o'r DARDR? *Teulu, ffrindiau, cydweithwyr, cymdogion neu y gymuned ehangach*	
2	Dyddiad cysylltu cyntaf	
3	Natur eu cyfranogiad	
4	A ddarparwyd taflen gan y Swyddfa Gartref? (D/N)	
	Os na, pam?	
5	A gynigiwyd eiriolaeth arbenigol? (D/N)	
	Os na, pam?	
6	A rannwyd y Cylch Gorchwyl? (D/N)	
	A gynigiwyd cyfle i roi adborth ar y Cylch Gorchwyl? (D/N)	
	Os na, pam?	
7	Dyddiad wnaethon nhw gwrdd â Phanel DARDR	
	Os na wnaethon nhw gwrdd â'r Panel, pam?	
8	A gawson nhw ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd y DARDR? (D/N)	
	Nodwch pa mor aml y gwnaed diweddariadau	
	Os na chawsant eu diweddaru'n rheolaidd, pam?	
9	A roddwyd y drafft DARDR iddynt i'w adolygu a rhoi adborth cyn ei gyflwyno i Fwrdd SA DARDR?	
	Os na, pam?	
10	A wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer eu hymgysylltiad? *e.e. defnyddio dehonglwyr, neu ddarparu cyfieithiad o'r DARDR*	
11	A gafodd plant y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad?	
	Os na, pam?	
12	A gynigiwyd eiriolaeth arbenigol i blant?	
	Os na, pam?	

Atodiad H: Ffurflen Casglu Data DARDR

NID YW HWN I'W GYHOEDDI – AT DDIBEN CASGLU DATA GAN Y SWYDDFA GARTREF YN UNIG

DATA ADOLYGIAD MARWOLAETH SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHAM-DRIN CARTREF

MARCIWCH BOB BLWCH:
OS NAD YW'R CWESTIWN YN BERTHNASOL, NODWCH: AMH
OS NAD YW'R ATEB YN HYSBYS, NODWCH HYN NEU NODWCH: ANHYSBYS

Enw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol	
Awdurdod Lleol	
Ardal yr Heddlu	
Dyddiad y farwolaeth	
Lleoliad y farwolaeth	
Ai cyfeiriad cartref y dioddefwr yw'r lleoliad? (Y, N neu ANHYSBYS)	
Cadeirydd Panel yr Adolygiad	
Awdur yr Adolygiad	
Dyddiad comisiynu DARDR gan y CSP	
Dyddiad hysbysu'r Swyddfa Gartref am DARDR	
Cyfeirnod lleol DARDR	
Dyddiad cwblhau'r adroddiad gan yr awdur	
Dyddiad cymeradwyo gan Fwrdd y CSP	
Dyddiad cyflwyno i'r Swyddfa Gartref gan Fwrdd y CSP	

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref a roddwyd ar gyfer yr adroddiad	
A ellir cyhoeddi'r adroddiad ar Lyfrgell allanol DARDR?	

1. Dioddefwr/wyr	**Dioddefwr 1**	**Dioddefwr 2**	**Dioddefwr 3**
Rhyw y dioddefwr/wyr			
Oedran ar adeg y farwolaeth			
Perthynas â'r cyflawnwr			
Ethnigrwydd			
Cenedligrwydd			
A yw'r dioddefwr yn Ofalwr, neu a oedd yn Ofalwr? (Y, N neu Anhysbys)			
Os Ydyw, a gafodd Asesiad Gofalwr o dan y Ddeddf Gofal? (D, N neu Anhysbys)			
Gwendidau. Nodwch (e.e. X) ar gyfer Y CYFAN sy'n berthnasol			
Defnyddio Cyffuriau Anghyfreithlon			
Problemau Iechyd Meddwl			
Anabledd Corfforol			
Beichiogrwydd			
Defnydd Problemus o Alcohol			
Arall - Nodwch			
Problem(au) iechyd meddwl a nodwyd yn y DARDR. Nodwch 'X' wrth Y CYFAN sy'n berthnasol			
Anhwylder Addasu Iselder			
Gorbryder			
Dementia neu glefyd Alzheimer			
Iselder			

Hwyliau isel / gorbryder (dim diagnosis)			
Trawiadau panig			
Seicosis			
PTSD			
Hunan-niweidio			
Meddyliau hunanladdol			
Ymdrech(ion) i gyflawni hunanladdiad			
Heb ei nodi (nodwch)			
Unrhyw salwch difrifol neu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd? (Y, N neu Anhysbys) Mae salwch sy'n cyfyngu ar fywyd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cyflwr na ellir ei wella, a fydd yn byrhau bywyd unigolyn, er y gallent barhau i fyw bywydau egnïol am flynyddoedd lawer. Mae ystod eang o afiechydon sy'n cyfyngu ar fywyd, gan gynnwys methiant y galon, clefyd yr ysgyfaint, cyflyrau niwrolegol – fel clefyd Parkinson a Sglerosis Ymledol – a chanser nad yw bellach yn ymateb i driniaeth sydd â'r nod o wella'r cyflwr. stclarehospice.org.uk/what-does-that-mean/			
Os 'Ydy', disgrifiwch			
A yw'r dioddefwr wedi bod yn darged i gamdriniwr o'r blaen? (Ydy, Nac ydy neu Anhysbys)			
Os ydy, nodwch gan bwy?			
Os yw DARDR yn adolygu achos o hunanladdiad, ewch i Adran 4			

2. Cyflawnwr	Cyflawnwr 1	Cyflawnwr 2
Rhyw'r cyflawnwr		

Oedran ar adeg y digwyddiad angheuol		
Perthynas â'r dioddefwr/wyr		
Ethnigrwydd Defnyddiwch y codau / disgrifiadau a roddir ar waelod y ffurflen, gan ddechrau or res 156		
Cenedligrwydd		
A yw, neu a oedd, y troseddwr yn Ofalwr? (Y, N neu Anhysbys) Os YDY, nodwch bwy yr oeddent yn ofalwr iddo? Yn y cyd-destun hwn, mae diffiniad gofalwr yn cyfeirio at oedolyn neu berson ifanc sy'n gofalu am rywun oherwydd eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl yn ogystal ag iechyd corfforol, sy'n rhoi hawl i'r gofalwr gael Asesiad Gofalwr o dan Ddeddf Gofal 2014. Mae Deddf Plant a Teuluoedd 2014 hefyd yn cynnwys dyletswyddau i asesu gofalwyr ifanc a rhieni sy'n gofalu am blant dan 18 oed.		
Os Ydy, a oeddent wedi cael Asesiad Gofalwr o dan y Ddeddf Gofal? (O, N neu Anhysbys)		
Gwendidau. Nodwch (e.e. X) Y CYFAN sy'n berthnasol		
Defnydd Anghyfreithlon o Gyffuriau		
Afiechyd Iechyd Meddwl		
Anabledd Corfforol Deddf Cydraddoldeb 2010. Ystyrir bod gan berson anabledd os oes ganddo salwch, anabledd neu nam hirdymor sy'n achosi anhawster gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd.		
Defnydd Problemus o Alcohol		

Arall - Nodwch		
Problem(au) iechyd meddwl wedi'u nodi yn y DARDR. Nodwch (e.e. X) Y CYFAN sy'n berthnasol.		
Anhwylder Addasu		
Gorbryder		
Dementia neu glefyd Alzheimer		
Iselder		
Hwyliau isel / gorbryder (dim diagnosis)		
Trawiadau panig		
Seicosis		
PTSD		
Hunan-niweidio		
Meddyliau hunanladdol		
Ymdrech(ion) i gyflawni hunanladdiad		
Heb ei nodi (nodwch)		
Unrhyw salwch difrifol neu salwch sy'n cyfyngu ar hyd oes? (**I, N neu Anhysbys)** Mae 'salwch sy'n cyfyngu ar hyd oes' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cyflwr na ellir ei wella, a fydd yn byrhau bywyd unigolyn, er y gallent barhau i fyw bywydau egnïol am flynyddoedd lawer. Mae ystod eang o afiechydon sy'n cyfyngu ar hyd oes, gan gynnwys methiant y galon, clefyd yr ysgyfaint, cyflyrau niwrolegol (fel clefyd Parkinson a Sglerosis Ymledol), a chanser nad yw bellach yn ymateb i driniaeth sydd â'r nod o wella'r cyflwr. stclarehospice.org.uk/what-does-that-mean/		
Os 'Ie', disgrifiwch		

A oedd y tramgwyddwr wedi cam-drin partner(iaid) blaenorol neu aelod o'r teulu o'r blaen? (O, N, neu Anhysbys)		
Os 'Oedd', nodwch pwy oedd y dioddefwr		
A oedd y cyflawnwr yn hysbys i asiantaethau fel camdriniwr? (O, N neu Anhysbys)		
Os 'Oedd', nodwch pa asiantaethau		
A oes gan y troseddwr hanes o droseddu yn y gorffennol? (O, N neu Anhysbys)		
Os 'Oes', nodwch y troseddau a gyflawnwyd		
A oedd y cyflawnwr yn cael ei reoli neu ei oruchwylio gan, neu a oedd yn mynychu unrhyw un o'r canlynol? Nodwch (e.e. X) ar gyfer Y CYFAN un sy'n berthnasol		
Mynychu, neu wedi mynychu, Rhaglen i Droseddwyr		
Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol		
MAPPA		
Gwasanaethau Iechyd Meddwl		
Gwasanaeth Prawf		
Arall		

3. Manylion y Drosedd, MARAC a Chanlyniad y Treial	
A oedd y dioddefwr wedi cael ei gyfeirio at MARAC? (O, N neu Anhysbys)	
A gafodd yr achos ei ystyried gan MARAC cyn y lladdiad? (D, N neu Anhysbys)	
Dull lladd. Os yw'n berthnasol, nodwch yr arf a ddefnyddiwyd	
Trawma Grym Pŵl	
Arf Tanio	

Trywanu/ Cyllell	
Tagu	
Arall, nodwch	
Achos marwolaeth - canlyniadau post-mortem	
Manylion dyfarniad y Llys. Nodwch (e.e. X) ar gyfer Y CYFAN sy'n berthnasol	
Llofruddiaeth	
Dynladdiad	
Cyfrifoldeb lleiedig	
Anaddas i Bledio	
Ddim yn Euog	
Manylion y ddedfryd/dedfrydau A thariff/tariffau'r ddedfryd/dedfrydau h.y. Euog o Lofruddiaeth, Dynladdiad, neu Ddynladdiad oherwydd Cyfrifoldeb Lleiedig, ac ati; yna tariff y ddedfryd, h.y. isafswm o 25 mlynedd, Gorchymyn Ysbyty gyda Chyfyngiadau, ac ati.	
4. Manylion, os yn adolygu hunanladdiad neu lofruddiaeth / hunanladdiad	
A yw DARDR yn adolygu llofruddiaeth a hunanladdiad?? (Y neu N)	
Os yw DARDR yn adolygu marwolaeth drwy hunanladdiad, atebwch y canlynol ynglŷn â'r unigolyn a gymerodd ei fywyd ei hun.	
Rhyw ac oedran yr ymadawedig	
Dull hunanladdiad	
Ai hunanladdiad gan y Cyflawnwr sy'n gyfrifol am laddiad y dioddefwr ydyw? (I, N, Anhysbys)	

5. Ffactorau gwaethygol
Ffactorau gwaethygol yn y DARDR. Nodwch (e.e. X) ar gyfer Y CYFAN sy'n berthnasol

Rheolaeth drwy orfodaeth	
Stelcio digidol	
Priodas dan orfod	
Trais ar sail anrhydedd	
Cam-drin Ariannol	
Materion mewnfudo (V os yw'n berthnasol i'r dioddefwr a/neu P os yw'n berthnasol i'r cyflawnwr)	
Stelcio corfforol	

6. Manylion plant os yn berthnasol (0-18 oed))	
	Manylion y plentyn/plant
A oedd unrhyw blant yn byw, neu'n aros yn rheolaidd yn y cartref?	
A oedd plant yn bresennol pan ddigwyddodd y lladdiad?	
Os OEDD, rhowch ryw'r plentyn/plant	
Os OEDD, rhowch oedran y plentyn/plant	
A oedd gan y dioddefwr a'r cyflawnwr gyfrifoldeb rhiant ar y cyd dros blentyn/plant o dan 18 oed ar adeg y lladdiad?	
A oedd gan y dioddefwr/dioddefwyr gyfrifoldeb rhiant dros blentyn/plant o dan 18 oed ar adeg y llofruddiaeth?	
A oedd unrhyw blant yn byw, neu'n aros yn rheolaidd yng nghartref y dioddefwr? (gan gynnwys meibion/merched sy'n oedolion, ac ati)	

A oedd unrhyw blant yn byw, neu'n aros yn rheolaidd yng nghartref y cyflawnwr? (gan gynnwys meibion/merched sy'n oedolion, ac ati)	
A oedd unrhyw blant yn bresennol pan ddigwyddodd y lladdiad? (gan gynnwys meibion/merched sy'n oedolion, ac ati)	
A oedd unrhyw blant yn destun gweithdrefnau diogelu plant oherwydd cam-drin domestig, neu'n rhan o gynllun ar gyfer 'plentyn mewn angen', cyn y lladdiad?	
A oedd plant yn destun gweithdrefnau diogelu plant oherwydd camdriniaeth ddomestig cyn y lladdiad?	
A gafodd unrhyw blant eu rhoi yng ngofal yr Awdurdod Lleol?	

7. Cyfraniad a chymorth gan y teulu trwy broses DARDR	
A wnaeth y teulu gyfrannu at y DARDR? (D, N neu Anhysbys)	
Os yw'r ateb yn N, rhowch sylw	
A ymgynghorwyd â'r teulu ynghylch y cylch gorchwyl? (D, N neu Anhysbys)	
Os yw'r ateb yn N, rhowch sylw	
A gafodd y teulu gymorth eiriolwr arbenigol? (D, N neu Anhysbys)	
Os yw'r ateb yn D, nodwch fanylion	
A gafodd y teulu ddrafft o'r adroddiad i roi sylwadau arno? (D, N neu Anhysbys)	
Os yw'r ateb yn N, rhowch sylw	

A fynychodd y teulu banel DARDR? (D, N neu Anhysbys)	
Os yw'r ateb yn N, rhowch sylw	

Diolch am ddarparu'r data hwn. Dychwelwch eich dogfennau DARDR wedi'u cwblhau i'r Swyddfa Gartref yn: dardrenquiries@homeoffice.gov.uk

Ethnigrwydd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)
Gwyn
1. Seisnig/Cymreig/Albanaidd/Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/Prydeinig
2. Gwyddelig
3. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
4. Unrhyw gefndir Gwyn arall, disgrifiwch
Grwpiau ethnig cymysg/aml-ethnig
5. Gwyn a Du Caribïaidd
6. Gwyn a Du Affricanaidd
7. Gwyn ac Asiaidd
8. Any other Mixed/Multiple ethnic background, please describe
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig
9. Indiaidd
10. Pacistanaidd
11. Bangladeshaidd
12. Tsieineaidd
13. Unrhyw gefndir Asiaidd arall, disgrifiwch
Du/ Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig
14. Affricanaidd

15. Caribïaidd
16. Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, disgrifiwch
Grŵp ethnig arall
17. Arabaidd
18. Unrhyw grŵp ethnig arall, disgrifiwch

Atodiad I: Cylch Gorchwyl Bwrdd Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer DARDR

Gall y Cylch Gorchwyl newid.

1. Cefndir

1.1 Mae'r broses Adolygu Marwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig (DARDR) wedi'i seilio yn Neddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004[60] ("y Ddeddf") sy'n darparu ar gyfer cynnal DARDR mewn ardaloedd lleol mewn achosion lle mae marwolaeth person 16 oed neu'n hŷn 'wedi deillio, neu'n ymddangos ei bod wedi deillio, o gam-drin domestig tuag at y person, o fewn ystyr Deddf Cam-drin Ddomestig 2021, gyda'r nod o nodi'r gwersi y gellir eu dysgu o'r farwolaeth'.

1.2 Y disgwyliad yw y dylid cynnal DARDR ar gyfer pob marwolaeth sy'n bodloni'r amgylchiadau uchod a lle gellir dysgu gwersi. Gall yr Ysgrifennydd Cartref gyfarwyddo corff neu berson penodol i sefydlu a chymryd rhan mewn DARDR (adran 8A(4) y Ddeddf), mewn achosion lle mae'r Ysgrifennydd Cartref yn ystyried y dylid eu cynnal.

1.3 Diben DARDR yw nodi gwersi a ddysgwyd ynghylch sut mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio, yn unigol ac ar y cyd, i ddiogelu dioddefwyr. Mae'r broses DARDR yn helpu i wella'r ymateb i gam-drin domestig ac atal lladdiadau yn y dyfodol. Mae Cadeirydd y DARDR yn nodi camau gweithredu ac yn gwneud argymhellion i asiantaethau statudol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs) er mwyn gweithredu arferion gwell.

1.4 Mae sicrhau ansawdd ar gyfer DARDRau sydd wedi'u cwblhau yn gyfrifoldeb i fwrdd arbenigol sy'n cynnwys asiantaethau statudol a sefydliadau o'r sector gwirfoddol, ac fe'i rheolir gan y Swyddfa Gartref.

2. Pwrpas

2.1 Pwrpas Bwrdd Sicrwydd Ansawdd (SA) DARDR yw: sicrhau bod canllawiau statudol DARDR wedi'u dilyn; bod Cadeirydd DARDR wedi ymgysylltu ag asiantaethau a sefydliadau priodol, yn ogystal â theulu a ffrindiau, er mwyn llunio darlun mor gyflawn â phosibl; a sicrhau bod gwersi wedi'u nodi a bod y tebygolrwydd y bydd marwolaethau pellach yn ymwneud â cham-drin domestig yn cael ei leihau i'r eithaf.

3. Cyfrifoldebau

3.1 Cyfrifoldebau'r Bwrdd Sicrwydd Ansawdd yw:

- Adolygu pob DARDR a gyflwynir gan y Swyddfa Gartref. Disgwylir y bydd o leiaf 16 DARDR yn cael eu hadolygu bob mis. Efallai y bydd angen i'r Bwrdd adolygu nifer uwch o achosion pan fo angen, a bydd angen iddynt reoli eu hamser yn unol â nifer yr achosion a gyflwynir bob mis.
- Adolygu'r holl benderfyniadau a wneir gan CSPs i beidio â chomisiynu DARDRs (cyfartaledd o 6 achos bob mis).

[60] Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004

- Darparu adborth ar DARDRs i'r CSPs a Chadeirydd y broses DARDR. Dylai'r adborth hwn fod yn seiliedig ar ganllawiau statudol DARDR ac arbenigedd proffesiynol yr aelodau. Bydd hyn yn cynnwys llenwi ffurflen sy'n ymdrin â'r canlynol: sut y mae'r adolygiad wedi dilyn y canllawiau statudol; y dadansoddiad o gam-drin domestig o fewn yr adolygiad; ac effeithiolrwydd ac addasrwydd yr argymhellion a nodwyd yn sgil dadansoddi'r farwolaeth hon, er mwyn atal cam-drin domestig pellach.
- Nodi enghreifftiau o arfer da o fewn DARDRs, yn ogystal ag achosion lle gallai fod angen diwygio DARDR cyn ei gyhoeddi.
- Ystyried a yw'r argymhellion a wneir yn SMART ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, er mwyn sicrhau y gellir gwreiddio'r hyn a ddysgwyd mewn ffordd ystyrlon.
- Rhannu arferion gorau a mewnwelediad ehangach drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n cynnwys data ar y DARDRs a adolygwyd, yn ogystal â themâu sy'n codi o adborth y Bwrdd SA.

3.2 Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd SA yn ymestyn i Loegr a Chymru yn unig; ni ddisgwylir iddo ddarparu cyngor gweinidogol ar faterion yn ymwneud â DARDRs, cynnal cyfweliadau â'r cyfryngau ynglŷn â DARDRs yn dilyn eu cyhoeddi, na gwneud ymateb cyhoeddus mewn perthynas â DARDRs.

3.3 Ysgrifennwr yr Adroddiad

- Bydd gan un aelod anstatudol dasg ychwanegol: llunio'r adroddiad blynyddol ar ran y Cadeirydd.
- Disgwylir i adroddiad blynyddol y DARDR gynnwys data ar y DARDRs a adolygwyd, yn ogystal â themâu sy'n codi o'r adborth. Caiff ei gyhoeddi ar-lein.

3.4 Ar gyfer aelodau'r Bwrdd Sicrwydd Ansawdd sy'n cynrychioli sefydliadau statudol:

- Bydd gofyn i aelodau adolygu'r DARDRs sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd Sicrwyd Ansawdd, sy'n ymwneud â'u meysydd priodol. Bydd gofyn i aelodau adolygu'r holl benderfyniadau a wnaed gan CSPs i beidio â chomisiynu DARDRs.

4. Aelodaeth ac arbenigedd

Bydd aelodau'r Bwrdd yn cynnwys cymysgedd o aelodau statudol ac anstatudol:

4.1 **Aelodau statudol o:**

a. NHS England
b. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

4.2 Bydd angen i aelodau ddangos bod ganddynt o leiaf 3 blynedd o brofiad a gafwyd yn y sector cyhoeddus a/neu'r sector gwirfoddol neu'r byd academaidd drwy:

a. gweithio ym maes cam-drin domestig neu

b. gweithio ym maes lladdiadau domestig a/neu hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig

4.3 **Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth**

4.3.1 Cadeirydd

4.3.2 Bydd swydd Cadeirydd y Bwrdd SA yn cael ei dal gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Uned Cam-drin Rhyngbersonol y Swyddfa Gartref; gellir dirprwyo'r rôl hon i swyddog o'r Swyddfa Gartref yn ôl yr angen.

4.3.3 Disgwylir i'r Cadeirydd ddarparu arweiniad er mwyn sicrhau consensws ymhlith yr aelodau o ran cyhoeddi adroddiadau DARDR unigol, neu benderfyniadau sy'n cael eu hystyried mewn unrhyw gyfarfod penodol o'r Bwrdd SA.

4.3.4 Yr Ysgrifenyddiaeth

4.3.5 Swyddogion o fewn Uned Cam-drin Rhyngbersonol y Swyddfa Gartref fydd yn cyflawni rôl yr Ysgrifenyddiaeth. Eu swyddogaeth yw cefnogi'r Bwrdd wrth gyflawni ei gylch gwaith.

4.3.6 Mae'r tasgau'n cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

a. Casglu sylwadau ar DARDRs gan aelodau'r bwrdd
b. Cyfathrebu ag aelodau'r bwrdd
c. Rheoli'r broses Sicrwydd Ansawdd DARDR gyffredinol yn effeithlon
d. Trefnu cyfarfodydd y bwrdd

5 Safonau ar gyfer Aelodau a Llywodraethu Busnes y Bwrdd

5.1. Dylai aelodau, ar bob adeg:

a. Cadw at y safonau uchaf o ddidueddrwydd, uniondeb a gwrthrychedd mewn perthynas â'r cyngor a ddarperir ganddynt a rheolaeth y Bwrdd;
b. Bod yn atebol i'r Swyddfa Gartref am ei weithgareddau ac am safon y cyngor a'r penderfyniadau a wneir ganddo;
c. Gweithredu yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus (Mehefin 2019) Cod ymddygiad ar gyfer aelodau byrddau cyrff cyhoeddus - GOV.UK (www.gov.uk) a'r saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus: Y saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus - GOV.UK (www.gov.uk);
d. Cydymffurfio â'r cod hwn a sicrhau eu bod yn deall eu dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a'u bod yn gyfarwydd â swyddogaeth a rôl y corff hwn ac unrhyw ddatganiadau perthnasol o bolisi'r Llywodraeth;
e. Peidio â chamddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn ennill budd personol neu at ddibenion gwleidyddol; a pheidio â cheisio defnyddio'r cyfle a ddaw yn sgil gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddiannau preifat eu hunain, neu fuddiannau unigolion, cwmnïau, busnesau neu sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â hwy;
f. Peidio â dal unrhyw swyddi, boed yn rhai â thâl neu'n swyddi proffil uchel heb dâl, mewn plaid wleidyddol; a pheidio ag ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol penodol sy'n ymwneud â materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar waith y corff hwn;

g. Wrth ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol eraill, dylai aelodau fod yn ymwybodol o'u rôl gyhoeddus ac arfer disgresiwn priodol.

6 Rheoli Perfformiad

6.1 Dylai'r Cadeirydd adolygu perfformiad y Bwrdd yn rheolaidd, gan gynnwys cyfraniad, perfformiad ac ymddygiad aelodau unigol. Dylid rhoi adborth unigol i aelodau unigol y bwrdd ac mewn amgylchiadau eithriadol gall y Cadeirydd gyflwyno cyngor i Weinidogion y Swyddfa Gartref os yw'n fodlon bod Aelod;

a. wedi dod yn anaddas neu'n analluog i gyflawni ei swyddogaethau'n briodol, neu

b. wedi ymddwyn mewn ffordd nad yw'n gydnaws â pharhau yn y swydd.

7 Telerau penodi

7.1 Penodir aelodau bwrdd a benodir yn gyhoeddus gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, yn unol â'r cod llywodraethu ar benodiadau cyhoeddus. Fel arfer, mae penodiadau cyhoeddus yn parhau am gyfnod o 3 blynedd, er mai'r Gweinidogion sydd, yn y pen draw, yn penderfynu ar hyd y cyfnod yn y swydd. Gellir ailbenodi aelodau, ond mae rhagdybiaeth gref na ddylai unrhyw unigolyn wasanaethu am fwy na dau gyfnod, neu 10 mlynedd yn y swydd.

7.2 Gall yr aelod, neu Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref (ar ôl cael cyngor gan swyddogion), ddod â'r penodiad i ben drwy roi rhybudd o 3 mis.

7.3 Y sefydliad y maent yn ei gynrychioli sydd, yn bennaf, yn penodi aelodau statudol y bwrdd. Os yw'r Cadeirydd yn anfodlon ar berfformiad aelod, bydd angen dilyn y weithdrefn rheoli perfformiad; ac os ceir cymeradwyaeth gan Weinidogion, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r sefydliad statudol benodi aelod bwrdd newydd sydd â safon ac arbenigedd tebyg.

8 Cynnal Cyfarfodydd

8.1. Agenda

Bydd yr agenda safonol canlynol yn cael ei gyfarwyddo gan y Cadeirydd:

- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn darllen crynodeb o bob DARDR sydd i'w ystyried, ac yna bydd aelodau'r bwrdd yn ei drafod; bydd copïau ar gael iddynt eu darllen ymlaen llaw.
- Yna, cynhelir trafodaeth ar yr adolygiad, ac ar ôl hynny bydd aelodau'r bwrdd yn pleidleisio. Yn seiliedig ar y mwyafrif o bleidleisiau, penderfynir a ellir cyhoeddi'r DARDR gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (ar yr amod bod adborth gan y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad), neu a ddylid cyflwyno'r DARDR i'r Bwrdd Sicrwydd Ansawdd eto ar gyfer gwiriad pellach cyn ei gyhoeddi.
- Crynodeb o'r holl benderfyniadau a wneir gan CSPs i beidio â chomisiynu DARDRs. Yna, cynhelir trafodaeth ar yr achos, ac ar ôl hynny bydd pleidlais i benderfynu a yw aelodau'r bwrdd yn cytuno â'r penderfyniad a wnaed.

8.2. Hysbysiad o Gyfarfodydd

- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn anfon gwahoddiad cyfarfod Microsoft Teams at y Bwrdd, ac yn darparu'r holl bapurau ac agenda DARDR perthnasol o leiaf mis cyn cyfarfod y Bwrdd, gan ddarparu mwy o amser lle bo hynny'n bosibl.

8.3. Amlder cyfarfodydd

- Fel arfer, bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn fisol ac yn parhau am ddwy awr a hanner. Fodd bynnag, gall y Cadeirydd alw cyfarfodydd ychwanegol os oes angen, ac er mwyn sicrhau bod unrhyw ôl-groniad o DARDRs yn cael ei symud ymlaen mewn modd amserol. Gall y Cadeirydd hefyd drefnu 'uwch-fwrdd' blynyddol, ar yr amod bod aelodau'n cael o leiaf 3 mis o rybudd ymlaen llaw. Bydd yr uwch-fyrddau yn parhau am hanner diwrnod, a bydd nifer dwbl o DARDRs yn cael eu hadolygu yn ystod y cyfarfodydd hyn.

9. Presenoldeb

9.1. Bydd y canlynol yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd SA:

a. Y Cadeirydd, neu uwch swyddog a benodwyd ganddynt os na fyddant ar gael i gadeirio unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd SA;
b. Yr Ysgrifenyddiaeth;
c. Cynrychiolwyr a enwebwyd gan bob sefydliad statudol;
d. Pob aelod o'r bwrdd a benodwyd yn gyhoeddus.

9.2. Os na all aelodau'r Bwrdd, am unrhyw reswm ac o dan amgylchiadau eithriadol, fynychu'r cyfarfod, dylent ddarparu adborth i'r Bwrdd SA ar y DARDRs er mwyn iddo gael ei ystyried; gwneir penderfyniadau yn eu habsenoldeb.

10. Uwchgyfeirio

10.1 Nid oes proses uwchgyfeirio uwchben Cadeirydd y Bwrdd SA, pe byddai aelod o'r bwrdd yn anfodlon am unrhyw reswm.

11. Cymeradwyo, adolygu ac amrywio'r Cylch Gorchwyl

11.1 Mae'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddiogelu a Thrais yn erbyn Menywod a Merched yn cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl hwn, y gellir ei adolygu a'i ddiwygio ar unrhyw adeg.

Atodiad J: Rhestr Wirio Cyflwyno DARDR

Rhestr wirio dogfennau i'w defnyddio gan Banel DARDR a'r CSP cyn cyflwyno'r DARDR i Fwrdd Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref

Darperir y rhestr wirio hon i gynorthwyo Paneli DARDR a CSPs gyda'u dyletswyddau statudol o ran cymeradwyo adolygiadau DARDR, gyda'r nod o leihau'r angen i ailgyflwyno adolygiad oherwydd gwybodaeth sydd ar goll. Defnyddiwch y rhestr wirio hon i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i nodi yn unol â'r Canllawiau Statudol ar gyfer Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig, a bod y Cynllun Gweithredu DARDR wedi'i gynnwys yn eich adolygiad.

Cynhwyswch y rhestr wirio hon gyda'ch dogfennau DARDR i'r Swyddfa Gartref.

	Gwybodaeth Hanfodol	✓ Ticiwch os yw wedi'i gynnwys yn y DARDR
Tudalen Teitl/Cynnwys	Yn cynnwys: Enw'r CSP. Ffugenw'r dioddefwr, mis a blwyddyn y farwolaeth. Enw Cadeirydd/Awdur y DARDR. Dyddiad cwblhau'r DARDR.	
	A oes tudalen gynnwys yn dilyn hwn?	
Portread ysgrifenedig	Os yw teulu neu ffrindiau wedi cyfrannu portread ysgrifenedig, a yw hwn wedi'i osod yn syth ar ôl y dudalen gynnwys? Os yw teulu a ffrindiau'r dioddefwr wedi penderfynu peidio ag ysgrifennu eu portread ysgrifenedig eu hunain, a yw Cadeirydd y DARDR wedi amlinellu'r hyn y maent wedi'i ddysgu am bwy oedd y dioddefwr?	
Paragraffau rhagarweiniol	Mae neges gydymdeimlad wedi'i chynnwys.	
Cyfrinachedd	Mae datganiad cyfrinachedd wedi'i gynnwys.	
	Mae'r adran yn cynnwys y ffugenwau a ddefnyddiwyd i gynyddu anhysbysrwydd yr unigolion dan sylw a'u teuluoedd; nodir hefyd pwy ddewisodd ffugenw'r dioddefwr a phwy ddewisodd ffugenw'r troseddwr. Osgowyd defnyddio llythrennau cyntaf.	
	Cynhwysir oedran y dioddefwr a'r cyflawnwr adeg y digwyddiad angheuol, yn ogystal â'u hethnigrwydd.	
Cylch Gorchwyl	Mae'r prif linellau ymholi (gan gynnwys ffynonellau ymchwil) sy'n rhan o'r cylch gorchwyl wedi'u cynnwys yng nghorff y DARDR, ynghyd â'r cyfnod amser y mae'r DARDR yn ei archwilio; rhoddir esboniad hefyd dros y cyfnod amser a ddewiswyd i'w adolygu.	

	Mae'r prif linellau ymholi yn cynnwys termau sy'n benodol i'r achos ac yn berthnasol iddo, yn hytrach na thermau cyfeirio generig yn unig. Lle cynhwysir termau generig, fe'u cynhwysir yn y DARDR, yn hytrach na dim ond cyfeirio atynt.	
	Gellir hefyd ychwanegu'r cylch gorchwyl fel atodiad.	
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	A yw'r naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – os ydynt yn berthnasol i'r DARDR – wedi cael eu harchwilio'n llawn?	
	A yw'r nodweddion ac unrhyw faterion amrywiaeth wedi cael eu harchwilio i wirio a oeddent yn berthnasol i lunio meddwl y dioddefwr am y penderfyniadau a wnaethant, gan gynnwys rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau?	
	A wnaeth unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig effeithio ar ddarparu gwasanaethau?	
	A oedd unrhyw faterion yn deillio o brofiad ac anghenion personol i'w hystyried?	
	A oedd gan unrhyw un o'r unigolion yr oedd y DARDR yn ymwneud â nhw unrhyw wendidau penodol a gafodd effaith ar amgylchiadau'r DARDR?	
Gwybodaeth Gefndirol (Y Ffeithiau)	*A yw'r wybodaeth ganlynol, sy'n ofynnol yn y canllawiau, wedi'i darparu:* Ble roedd y dioddefwr yn byw a ble digwyddodd y farwolaeth. Crynodeb o'r lladdiad (disgrifiad byr o'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd, a sut y lladdwyd y dioddefwr neu sut y cymerodd ei fywyd ei hun).	
	Manylion am yr archwiliad post-mortem a'r cwest a/neu ymchwiliad y Crwner, os ydynt eisoes wedi digwydd. Nodwch achos y farwolaeth.	
	Aelodau o'r teulu a'r aelwyd. Pwy arall oedd yn byw yn y cyfeiriad neu'n ymweld yn rheolaidd? Ac os oedd plant yn byw yno, beth oedd eu hoedran bras ar y pryd? (Er mwyn diogelu anhysbysrwydd, ni ddylid nodi rhyw na'r union oedran y plant yn y DARDR, ond dylid darparu'r wybodaeth hon yn nhaflen ddata'r Swyddfa Gartref).	
	Pa mor hir roedd y dioddefwr wedi bod yn byw gyda'r cyflawnwr/wyr. Os oedd yn bartner neu'n gyn-bartner, pa mor hir roeddent wedi bod gyda'i gilydd fel cwpl.	
	Pwy gafodd ei gyhuddo o'r lladdiad, y dyddiad (mis a blwyddyn), canlyniad y treial, a'r ddedfryd.	
	Os cynhelir DARDR mewn perthynas â dioddefwr a fu farw drwy hunanladdiad neu o dan amgylchiadau anesboniadwy, nodwyd y sail dros ystyried bod yr achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal DARDR.	

Cronoleg	A yw cefndir y dioddefwr a'r cyflawnwr, cyn y cyfnodau sy'n cael eu hadolygu, wedi'u cynnwys er mwyn rhoi cyd-destun i'w stori?	
	Darparwyd cronoleg naratif gyfunol sy'n olrhain digwyddiadau allweddol perthnasol, cysylltiadau asiantaethau, ac ymgysylltiad â'r dioddefwr, y cyflawnwr a'u teuluoedd. Pwrpas hyn yw dangos camau gweithredu a gydlynwyd gan asiantaethau, neu absenoldeb gweithredu (nid adroddiad sy'n rhestru cysylltiadau fesul asiantaeth ydyw). Mae'r gronoleg gyfunol yn cynnwys amser (os yw ar gael) a dyddiad pob achlysur pan welwyd y dioddefwr, y cyflawnwr neu'r plentyn/plant, yn ogystal ag unrhyw farnau a dymuniadau a geisiwyd neu a fynegwyd.	
Trosolwg	Ceir crynodeb sy'n disgrifio'n gryno wybodaeth sydd ar gael i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol am y dioddefwr, y cyflawnwr a'u teuluoedd.	
	Mae unrhyw ffeithiau neu wybodaeth berthnasol am y dioddefwr a'r cyflawnwr – er enghraifft adroddiad seiciatrig neu ffynonellau gwybodaeth ychwanegol – wedi'u cynnwys, gyda manylion sy'n galluogi adnabod unigolion wedi'u tynnu.	
Dadansoddiad	A yw'r dadansoddiad wedi mynd i'r afael â'r Cylch Gorchwyl a/neu'r prif linellau ymholi sydd ynddo?	
	A yw'r dadansoddiad wedi archwilio'n ddigonol sut a pham y digwyddodd digwyddiadau, pa wybodaeth a rannwyd, pa benderfyniadau a wnaed, a pha gamau a gymerwyd – neu na chymerwyd?	
	A ystyriwyd a allai penderfyniadau neu gamau gweithredu gwahanol fod wedi arwain at ddatblygiadau gwahanol?	
	A yw'r dadansoddiad wedi gallu tynnu sylw at unrhyw arfer da?	
	A ystyriwyd adroddiadau adolygu achosion (DARDRs) lleol blaenorol, er mwyn gwirio a yw diffygion asiantaethau wedi cael sylw?	
	Adolygwch yr arfer y mae'r Bwrdd SA yn disgwyl ei weld mewn adroddiad statudol: A yw'r DARDR wedi defnyddio a dyfynnu ymchwil addas i gefnogi datganiadau, i roi enghreifftiau o arfer da, ac i hyrwyddo dysgu?	
Casgliadau	A yw'r casgliadau wedi dod â throsolwg o'r prif faterion a nodwyd ynghyd, ac a yw'r prif ganfyddiadau wedi'u mynegi'n glir?	
	A yw'r casgliadau'n tynnu sylw at faterion a fydd yn troi'n wersi a ddysgwyd yn yr adran nesaf?	

	Os nad oedd asiantaethau allweddol yn rhan o'r broses, a ystyriwyd yn briodol pam y gallai hyn fod yn wir?	
	A ystyriwyd beth fyddai angen iddo fod yn wahanol o ran ymatebion er mwyn cyflawni canlyniad gwahanol?	
Gwersi i'w Dysgu	A yw'r adran hon wedi crynhoi'r gwersi y gellir eu dysgu o'r achos, a sut y dylid troi'r gwersi hynny'n argymhellion ar gyfer gweithredu? A yw'r gwersi hyn yn seiliedig ar dystiolaeth?	
	A yw unrhyw ddysgu cynnar a nodwyd yn ystod y broses DARDR wedi'i gynnwys? Os felly, a yw hyn yn cynnwys y dyddiad y gweithredwyd ar y dysgu cynnar hwnnw, a phwy a weithredodd arno?	
Argymhellion	A yw'r argymhellion yn adlewyrchu'r Gwersi a Ddysgwyd?	
	A yw argymhellion IMR wedi'u cynnwys fel y disgwyliwyd?	
	A oes unrhyw argymhellion wedi'u gwneud a allai fod o effaith genedlaethol ac a wnaed ar gyfer cyrff neu sefydliadau ar lefel genedlaethol?	
	A yw'r argymhellion â ffocws, yn benodol, yn gryno, ac yn gallu cael eu gweithredu?	
Atodiadau	**Gwybodaeth Hanfodol**	**✓ Ticiwch os yw wedi'i gynnwys yn DARDR**
Amserlenni	Nodir dyddiadau dechrau a chwblhau'r DARDR.	
	A oes esboniad wedi'i roi am unrhyw oedi wrth gwblhau?	
Methodoleg	*A yw'r canlynol wedi'u cynnwys:* Y broses benderfynu ar gynnal DARDR a phwy oedd yn rhan ohoni, gan gynnwys a oedd arbenigwyr cam-drin domestig yn rhan o'r broses ymgynghori.	
	Pryd yr hysbyswyd y Swyddfa Gartref a theulu'r dioddefwr am y penderfyniad.	
	Y fethodoleg a ddefnyddiwyd, y dogfennau a ddefnyddiwyd, ac unrhyw gyfweliadau a gynhaliwyd.	
Cynnwys teulu, ffrindiau, cydweithwyr, cymdogion a'r gymuned ehangach	*A yw'r canlynol wedi'u cynnwys:* Pryd y cysylltwyd â phobl a gan bwy.	
	Natur cyfranogiad yr unigolyn.	
	Cadarnhau bod taflen DARDR y Swyddfa Gartref wedi'i darparu.	
	Cafodd y teulu gymorth eiriolwr arbenigol ac arbenigwr.	

	Rhannwyd y cylch gorchwyl â hwy i gynorthwyo o ran cwmpas y DARDR a'r cyfraniad a wnaed gan y teulu.	
	Cyfarfu'r teulu â'r Panel DARDR a/neu'r Cadeirydd.	
	Mae'r teulu wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.	
	Mae'r teulu neu'r ffrind(iau) sydd agosaf at y dioddefwr wedi adolygu drafft y DARDR yn breifat, gyda digon o amser i wneud hynny, ac wedi cael cyfle i wneud sylwadau a chyflwyno gwelliannau os oedd angen.	
	Roedd modd i bawb a gyfrannodd wneud hynny drwy ddefnyddio'r cyfrwng o'u dewis.	
	Mae unrhyw newidiadau neu sylwadau gan y teulu wedi'u cofnodi'n glir, gan gynnwys unrhyw anghytundebau.	
Cyfranwyr i'r DARDR	Mae enwau asiantaethau a chyfranwyr eraill wedi'u rhestru, ynghyd â natur eu cyfraniad – h.y. IMRs, adroddiadau, cyngor arbenigol neu wybodaeth arall.	
	Cadarnhawyd annibyniaeth awduron yr IMRs.	
Y Panel DARDR	Mae'r rôl, teitl y swydd a'r asiantaeth y mae aelodau'r Panel yn eu cynrychioli wedi'u cynnwys.	
	Mae annibyniaeth aelodau'r Panel wedi'i nodi.	
	Mae nifer y troeon y cyfarfu'r Panel wedi'i nodi.	
	Mae'n amlwg bod y Panel yn cynnwys cymysgedd o asiantaethau statudol ac asiantaethau o'r sector gwirfoddol, ac roedd gwasanaethau arbenigol ym maes cam-drin domestig yn aelodau o'r Panel.	
	Pan nad yw enw asiantaeth yn nodi'n glir y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, eglurwyd y gwasanaeth mewn cromfachau neu mewn troednodyn.	
Awdur yr Adroddiad Adolygiad Trosolwg	Cadarnhawyd bod Cadeirydd ac awdur y DARDR (os mai rolau ar wahân ydynt) yn annibynnol ar y CSP ac asiantaethau lleol.	
	Mae manylion eu hanes gyrfa a'u profiad perthnasol, yn unol â chanllawiau statudol, wedi'u disgrifio.	
	Os ydynt wedi gweithio i unrhyw asiantaeth yn y gorffennol, nodir enw'r asiantaeth, a chynhwysir y wybodaeth ynghylch pryd y daeth y gyflogaeth honno i ben.	
Adolygiadau Cyfochrog	Nodwch a yw cwest, neu adolygiadau neu ymchwiliadau gan unrhyw asiantaeth arall, wedi cael eu cynnal, ac a ydynt wedi cael eu defnyddio i lywio'r adolygiad hwn.	
Lledaenu	Mae'r rhestr ledaenu o'r derbynwyr a fydd yn cael copïau o'r DARDR wedi'i chynnwys, ac mae'r PCC wedi'i gynnwys yn y rhestr i dderbyn y DARDR.	

	Darperir manylion am unrhyw ddigwyddiadau dysgu a gynlluniwyd, neu ddulliau eraill o rannu'r canfyddiadau.	
Y Cynllun Gweithredu		
Y Cynllun Gweithredu	A yw eich cynllun gweithredu wedi defnyddio'r templed yn y canllawiau statudol, neu a yw wedi cynnwys yr holl benawdau hyn yn eich cynllun?	
	A yw'r testun gofynnol wedi'i nodi ym mhob colofn yn eich cynllun – hynny yw, y camau gweithredu, enw'r asiantaeth arweiniol, y garreg filltir allweddol a'r dyddiad targed?	
	A yw eich cynllun yn nodi canlyniadau clir y disgwylir iddynt ddeillio o'r argymhellion yn y golofn 'Canlyniadau/Dyddiad Cwblhau'?	
	Os yw cam gweithredu wedi'i nodi fel un sydd wedi'i gwblhau, a yw'r dyddiad cwblhau wedi'i nodi?	
	Os yw'r holl gamau gweithredu i gyflawni argymhelliad wedi'u cwblhau, a yw'r dyddiad cwblhau wedi'i gofnodi yn y golofn 'Canlyniadau/Dyddiad Cwblhau'?	
Gwiriadau Terfynol		
Gwiriadau Prawf ddarllen	A yw'r tudalennau cynnwys yn gywir?	
	A yw'r Trosolwg a'r Crynodeb Gweithredol yn cynnwys yr holl benawdau gofynnol?	
	Mae'n ddefnyddiol i'r Bwrdd SA, ac ar gyfer adborth, os oes rhifau paragraffau drwy'r dogfennau.	
	A yw dogfennau DARDR wedi cael eu gwirio am wallau teipio a fformatio?	
	Lle bo'n berthnasol, mae geirfa wedi'i chynnwys.	
Naws *A allwch chi ateb 'ie' i'r cwestiynau canlynol?*	Pe byddwn i'n rhywun oedd yn caru'r dioddefwr, a fyddwn i'n ystyried bod y DARDR hwn yn agored, yn onest ac yn drylwyr?	
	Ydych chi wedi sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn canolbwyntio ar asiantaethau'n newid, yn hytrach nag ar y dioddefwyr neu eu teuluoedd?	
	A yw'r iaith a ddefnyddir yn rhydd rhag beio'r dioddefwr?	
	Mae angen i ni ddysgu am ymddygiad cyflawnwyr, yn ogystal ag ymyriadau sefydliadol a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hwy. A yw'r DARDR wedi ystyried y cyflawnwr fel person cyflawn, gan gynnwys cyd-destun ei gefndir a'i hanes?	

Atodiad K: Rhestr o Gysylltiadau Allweddol

Arweinwyr NHS England:

Rhanbarth	E-bost
Y Canolbarth	midlands-investigations.england@nhs.net
Dwyrain Lloegr	eoe.investigations@nhs.net
Llundain	ENGLAND.LondonInvestigations@nhs.net
Gogledd-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog	england.ney-investigations@nhs.net
De-orllewin Lloegr	sw-investigations.england@nhs.net
De-ddwyrain Lloegr	se-investigations.england@nhs.net
Gogledd-orllewin Lloegr	england.northwest-investigations@nhs.net

Pwynt Cyswllt Sengl Rhanbarthol y CPS (SPOC):

Ar gyfer y Pwynt Cyswllt Sengl (SPOC) yn y CPS, dewch o hyd i'r dudalen ranbarthol berthnasol ar www.cps.gov.uk, ac – drwy'r tab 'cysylltu â ni' – cyflwynwch ymholiad cyffredinol at sylw'r Dirprwy Brif Erlynydd y Goron (DCCP) lleol. Byddant hwythau wedyn yn eich cyfeirio at yr SPOC rhanbarthol cyfredol.

Y Swyddfa Gartref:

Rôl	E-bost
Ymholiadau DARDR (Y Swyddfa Gartref)	dardrenquiries@homeoffice.gov.uk

Comisiynydd Cam-drin Domestig:

Rôl	E-bost
Mewnflwch DARDR (DAC)	DHR@domesticabusecommissioner.independent.gov.uk

Cysylltiadau Cymorth a Chefnogaeth:

Am ddolenni i ffurflenni ar-lein a gwasanaethau sgwrsio ar y we, cliciwch yma: Cam-drin domestig: sut i gael cymorth - GOV.UK (www.gov.uk)

Cenedl	Llinell Gymorth	Cyswllt
Lloegr	Llinell Gymorth Genedlaethol Refuge ar gyfer Cam-drin Domestig	0808 2000 247
Gogledd Iwerddon	Llinell Gymorth Cam-drin Domestig a Rhywiol	0808 802 1414 help@dsahelpline.org
Yr Alban	Llinell Gymorth Cam-drin Domestig a Phriodas dan Orfod	0800 027 1234 helpline@sdafmh.org.uk
Cymru	Byw Heb Ofn	0808 80 10 800 info@livefearfreehelpline.wales
Ledled y DU	Llinell Gyngor i Ddynion	0808 801 0327 info@mensadviceline.org.uk

Cymorth penodol ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig:

Sefydliad	Cyswllt
AAFDA (Eiriolaeth Ar ôl Cam-drin Domestig Angheuol)	07887 488 464 www.aafda.org.uk

Gwasanaeth Lladdiad Cenedlaethol	0845 3030 900 www.victimsupport.org.uk
GIG	https://www.nhs.uk/mental-health/feelings-symptoms-behaviours/behaviours/help-for-suicidal-thoughts/

Cymorth ehangach:

Sefydliad	Cyswllt
EIDA (Menter Cyflogwyr ar Gam-drin Domestig) Rhwydwaith o gyflogwyr a busnesau sy'n cefnogi eu gweithwyr yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig.	www.eida.org.uk
Refuge Sefydliad sy'n darparu cymorth i fenywod sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.	0808 2000 247 info@refuge.org.uk
Respect Elusen y DU sy'n atal cyflawnwyr cam-drin domestig, ac yn darparu'r 'Respect Phoneline' ar gyfer pobl sy'n poeni am eu hymddygiad.	0808 802 4040 info@respect.uk.net
Money Advice Plus Canolfan Ragoriaeth ar gyfer gwasanaethau dyled a cham-drin economaidd. Yn cynnig llinell gymorth a gwasanaeth gwaith achos dyled rheoleiddiedig sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin economaidd.	0808 196 8845
NSPCC Prif elusen plant y DU sy'n gweithio i atal cam-drin, ailadeiladu bywydau plant a chefnogi teuluoedd.	0808 800 5000 help@nspcc.org.uk
Galop Sefydliad arbenigol ac elusen LHDT sy'n gweithio yn erbyn trais, gan gynnig cymorth i ddioddefwyr LHDT.	0800 999 5428 help@galop.org.uk
Y Samariaid Elusen y DU ac Iwerddon sy'n darparu llinell gymorth 24/7 i unrhyw un sy'n cael trafferth ymdopi, yn profi trallod, neu mewn perygl o hunanladdiad.	116 123

Atodiad L: Geirfa o Fyrfoddau ac Acronymau

Byrfodd/ Acronym	**Term**
AAFDA	Eiriolaeth ar ôl Cam-drin Domestig Angheuol
CPA	Yr Awdurdod Diogelu Plant
CPS	Gwasanaeth Erlyn y Goron
CSEW	Arolwg Troseddu ar gyfer Lloegr a Chymru
CSP	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
LCSPR	Adolygiad Lleol o Arferion Diogelu Plant
DAC	Comisiynydd Cam-drin Domestig ar gyfer Lloegr a Chymru
DARDR	Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig
DHR	Adolygiad o Laddiadau Cartref (**enw blaenorol**)
DHSR	Adolygiad o Laddiadau a Hunanladdiadau Domestig (**yr Alban**)
DPA	Deddf Diogelu Data
GDPR	Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
IDVA	Eiriolwr/Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig
IMR	Adolygiad Rheoli Unigol
IDVA	Eiriolwr Annibynnol ar Drais Domestig
ISVA	Eiriolwr Annibynnol ar Drais Rhywiol
MAPPA	Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Aml-asiantaeth
MHHR	Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl
NHS	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
NHSE	NHS England
PCC	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
PS	Gwasanaeth Prawf
SAR	Adolygiad Diogelu Oedolion
SAB	Bwrdd Diogelu Oedolion
SCR	Adolygiadau o Achosion Difrifol
SUSR	Adolygiad Diogelu Unedig (**Cymru**)